



WHIASU

Wales Health Impact
Assessment Support Unit
Uned Gymorth Asesu
Effaith ar Iechyd Cymru



**GIG
CYMRU
NHS
WALES**

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Goblygiadau Brexit i Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru: Ymagwedd Asesu Effaith ar Iechyd Crynodeb Gweithredol



Awduron

Liz Greenⁱ, Nerys Edmondsⁱ, Laura Morganⁱ, Rachel Andrewⁱⁱ, Malcolm Wardⁱⁱ, Sumina Azamⁱⁱ, a Mark A. Bellisⁱⁱ.

Mae'r Asesiad hwn o Effaith ar Iechyd mewn tair rhan:

- Goblygiadau Brexit i Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru: Ymagwedd Asesu Effaith ar Iechyd. Crynodeb Gweithredol (y ddogfen hon)**
- Goblygiadau Brexit i Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru: Ymagwedd Asesu Effaith ar Iechyd. Y Prif Ganfyddiadau**
- Goblygiadau Brexit i Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru: Ymagwedd Asesu Effaith ar Iechyd. Adroddiad Technegol**
 - Adroddiad Technegol: Rhan 1
 - Adroddiad Technegol: Rhan 2

Cynhaliwyd yr Asesiad hwn o Effaith ar Iechyd (HIA) ar adeg o ansicrwydd parhaus ac agenda Brexit sy'n esblygu'n gyflym. Bydd yr HIA yn parhau i gael ei adolygu a'i fonitro ar ôl ei gyhoeddi i adlewyrchu cyd-destun, tystiolaeth a digwyddiadau newidiol, a'i ddiweddarau lle y bo'n bosibl.

Dyfyniadau a awgrymir:

Green L, Edmonds N, Morgan L, Andrew R, Ward M, Azam S a Bellis MA. (2019). Goblygiadau Brexit i Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru: Ymagwedd Asesu Effaith ar Iechyd. Crynodeb Gweithredol. Caerdydd, Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

ISBN 978-1-78986-044-3

© 2019 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Gellir atgynhyrchu'r deunydd a geir yn y ddogfen hon yn unol â thelerau Trwydded Llywodraeth Agored (OGL)

www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/

cyhyd â bo hynny'n cael ei wneud yn gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Dylid cydnabod Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae hawlfraint y trefniant teipograffyddol hwn, y dyluniad a'r cynllun yn eiddo i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cydnabyddiaeth

Dymuna'r awduron ddiolch i'r holl unigolion a'r sefydliadau sydd wedi cyfrannu eu hamser a'u harbenigedd i gefnogi'r Asesiad hwn o Effaith ar Iechyd (HIA).

Gweithgor HIA

- Rachel Andrewⁱⁱ
- Nerys Edmondsⁱ
- Liz Greenⁱ
- Amy Hookway^{iv}
- Ed Huckleⁱⁱ, Public Health England
- Laura Morganⁱ
- Malcolm Wardⁱⁱ
- Angharad Wooldridgeⁱ

Grŵp Cyngori Strategol HIA

- Rachel Andrewⁱⁱ
- Sumina Azamⁱⁱ
- Nick Batey, Llywodraeth Cymru
- Huw Bruntⁱⁱⁱ
- Jo Charles, Tîm Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladar, Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Nerys Edmondsⁱ
- Eva Elliott, Prifysgol Caerdydd
- Liz Greenⁱ
- Katie Hirono, Llywydd Cymdeithas Ymarferwyr Asesu Effaith ar Iechyd (SOPHIA) / Prifysgol Caeredin
- Chrishan Kamalan, Llywodraeth Cymru
- Laura Morganⁱ
- Alice Teague, Asiantaeth Safonau Bwyd
- Malcolm Wardⁱⁱ

Dymuna'r awduron hefyd ddiolch i'r canlynol am eu mewnbwn:

Adam Jonesⁱⁱ, Sara Woodⁱⁱ, Sarah Jamesⁱⁱ, Sian King^{iv}, Louisa Petcheyⁱⁱ, Richard Lewisⁱⁱ, Sian Price^{iv}, Stephen Monaghan^v, Alisha Daviesⁱⁱ, Mariana Dyakovaⁱⁱ, Lee Parry Williamsⁱ a Hayley Jenney.

ⁱ Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru

ⁱⁱ Cyfarwyddiaeth Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol, Iechyd Cyhoeddus Cymru

ⁱⁱⁱ Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru

^{iv} Cyfarwyddiaeth Iechyd a Lles, Iechyd Cyhoeddus Cymru

^v Cyfarwyddiaeth Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion y GIG, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Paratoi'r ffordd

Mae ymadawiad y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd (UE) (y cyfeirir ato yn anffurfiol fel "Brexit") yn ddigwyddiad hollol newydd yn hanes y DU, ac mae'r dystiolaeth o effaith Brexit ar ystod eang o feysydd polisi naill ai'n anhysbys neu'n ddadleuol iawn. Mae Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, wedi cynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA) er mwyn deall yn well goblygiadau posibl Brexit i iechyd a llesiant yng Nghymru yn y dyfodol. Mae HIA yn broses hyblyg, systematig, yn seiliedig ar dystiolaeth, sy'n cynorthwyo sefydliadau i asesu canlyniadau posibl eu penderfyniadau, eu polisiau, eu cynlluniau neu eu cynigion o ran iechyd a llesiant y boblogaeth. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar gyd-destun gwleidyddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd penodol Cymru a'i nod yw cefnogi a galluogi rhanddeiliaid allweddol i gynllunio ar gyfer ac ymateb i Brexit.

Er mwyn rhoi tystiolaeth amserol, cynhaliwyd yr HIA o fewn graddfa amser gaeth dros gyfnod o chwe mis (Gorffennaf i Ragfyr 2018) ac mae'n seiliedig ar dystiolaeth oedd ar gael hyd at ddiwedd y cyfnod hwn. Mae'n 'gipolwg' ar effeithiau Brexit ar gyfer Cymru mewn cyfnod penodol o amser ac mae wedi ei osod yn erbyn yr amgylchedd newidiol ac esblygol cyn y broses o ymadael a ragwelir. Mae'n gyfnod o weithgaredd gwleidyddol dwys gyda phapurau newyddion, adroddiadau safbwyntiau rhanddeiliaid a chynlluniau'n cael eu cyhoeddi'n ddyddiol bron, gyda mwy'n debygol o ymddangos cyn 29 Mawrth 2019. O ganlyniad, mae'r dystiolaeth o union effeithiau gwirioneddol unrhyw sefyllfa Brexit yn gyfyngedig. Nid yw'r HIA hwn felly wedi arfarnu sefyllfa oedd penodol Brexit (er enghraifft Brexit 'meddal' yn erbyn Brexit 'caled') ond mae wedi canolbwyntio'n benodol ar effeithiau posibl y DU yn gadael fframwaith presennol yr UE i boblogaeth Cymru.

Mae union effeithiau'r DU yn gadael yr UE yn anhysbys. Bydd y rhain ond yn dod yn glir dros y blynyddoedd i ddod ac o ganlyniad, mae'r adroddiad hwn yn archwilio'r sbectrwm o effeithiau posibl yn ogystal â defnyddio gwybodaeth yn disgrifio'r effeithiau a nodwyd ers y refferendwm. Mae graddfa a chymhlethdod effeithiau Brexit yn golygu bod yr HIA wedi canolbwyntio ar yr effeithiau mawr uniongyrchol ac anuniongyrchol posibl. Fodd bynnag, cydnabyddir y gall fod effeithiau eraill sydd, hyd yn hyn, heb eu nodi ac a allai, yn y pen draw, fod yr un mor arwyddocaol i iechyd a llesiant. Mae unrhyw honiadau a geir yn y dystiolaeth a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn yn cynnwys rhesymeg dros eu cynnwys.

Mae'r HIA wedi cyfleu'r dystiolaeth orau sydd ar gael gan ddefnyddio ffynonellau ansoddol a meintiol o lenyddiaeth (academaidd a 'llwyd'), gwybodaeth arbenigol a gwybodaeth iechyd. Mae llenyddiaeth wedi cael ei nodi trwy brotocol ymchwil cadarn (gyda meini prawf cynnwys a hepgor clir), gyda mwy o bwysau'n cael ei roi i dystiolaeth wedi ei adolygu gan gymheiriaid. Os gwybodaeth arbenigol oedd yr unig ffynhonnell oedd ar gael i'r awduron, mae hyn wedi cael ei nodi'n glir. Mae'r awduron wedi nodi cyfyngiadau yn yr adroddiad. Cydnabyddir bod asesu ac ymateb i effeithiau Brexit yn waith sy'n mynd rhagddo. Fodd bynnag, yn ystod y broses HIA, mae'r awduron wedi ymdrechu i sicrhau bod y dystiolaeth ddiweddaraf yn cael ei chynnwys, gyda diwygiadau'n cael eu gwneud lle y bo'n bosibl hyd at yr adeg cyhoeddi.

Y gobaith yw y bydd yr HIA yma yn adnodd defnyddiol i sefydliadau nodi'n gyflym natur amrywiol yr effeithiau a allai fod yn berthnasol iddyn nhw, yn ogystal â rhychwant y grwpiau poblogaeth a allai gael eu heffeithio yng Nghymru pan fydd y DU yn gadael yr UE. Mae'n amlwg bod angen mwy o waith am y gall datblygiadau yn y dyfodol newid yr effeithiau a nodir yn yr adroddiad hwn a'u goblygiadau i iechyd a llesiant. Felly, bydd yr HIA hwn yn parhau i gael ei adolygu a'i fonitro i adlewyrchu cyd-destunau, tystiolaeth a digwyddiadau newidiol.

1 Cyflwyniad

Mae ymadawiad y Deyrnas Unedig (DU) o'r Undeb Ewropeaidd (UE) (y cyfeirir ato'n anffurfiol fel 'Brexit') yn cael ei gydnabod gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (PHW) fel newid polisi sylweddol sydd â'r potensial i effeithio ar iechyd a llesiant y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru.

Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru rôl flaenllaw yn sefydlu a grymuso pobl eraill i wella iechyd a llesiant. Er enghraifft, mae'n darparu gwybodaeth am faterion yn ymwneud â diogelu a gwella iechyd yng Nghymru i'r cyhoedd ac yn cynnal ac yn comisiynu ymchwil i faterion o'r fath. Fel corff cyhoeddus, mae gan PHW hefyd ddyletswydd yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i hybu datblygu cynaliadwy a mabwysiadu ymagwedd hirdymor, ataliol, gydweithredol ac integredig tuag at iechyd y boblogaeth sydd yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol.

Fel rhan o'r cyfrifoldebau hyn, mae Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru (WHIASU) yn PHW wedi cynnal Asesiad o Effaith ar Iechyd (HIA) yn ymwneud â goblygiadau iechyd y cyhoedd Brexit yn y tymor byr, canolig a hirdymor. Nod hyn yw cynorthwyo sefydliadau (ar draws sectorau) a gwneuthurwyr penderfyniadau yng Nghymru, i lywio'r amgylchedd gwneud polisiau trosfwaol er mwyn sicrhau bod unrhyw gyfleoedd i wella iechyd o ganlyniad i Brexit yn cael eu cynyddu a bod unrhyw effeithiau negyddol posibl neu ganlyniadau nas bwriadwyd yn cael eu hatal neu eu lleddfu, a llywio datblygiad cynlluniau strategol PHW i'r dyfodol.

Mae'r HIA yma yn ddadansoddiad unigryw, sydd yn asesu Brexit o safbwynt Cymreig gan ddefnyddio "lens" iechyd y cyhoedd o benderfynyddion cymdeithasol iechyd ac iechyd a llesiant y boblogaeth. Mae graddfa'r ansicrwydd a natur gynyddol esblygol y trefniadau ymadael a chytundebau masnach yn y dyfodol yn golygu na fu'n bosibl gwerthuso sefyllfaoedd Brexit penodol yn fanwl. Felly, mae'r HIA yn canolbwyntio yn gyffredinol ar y cyfleoedd posibl a'r peryglon i iechyd a llesiant yng Nghymru yn sgil y DU yn gadael yr UE; er bod cydnabyddiaeth y gallai natur a graddfa'r rhain newid yn dibynnu ar broses Brexit. Mae asesu ac ymateb i effeithiau Brexit yn mynd rhagddo a bydd yr HIA hwn yn parhau i gael ei adolygu a'i fonitro i adlewyrchu cyd-destunau sydd yn newid, tystiolaeth a digwyddiadau.

Mae'r HIA hwn yn cynnwys Crynodeb Gweithredol (y ddogfen hon), adroddiad Prif Ganfyddiadau ac Adroddiad Technegol ategol (mewn dwy ran), sydd yn rhoi mwy o wybodaeth ar y fethodoleg a ddefnyddir, yn ogystal â'r dystiolaeth lawn y mae canfyddiadau'r HIA yn seiliedig arnynt.



2 Nod

Nod yr HIA hwn yw nodi ac asesu graddau a natur effeithiau allweddol posibl Brexit yng Nghymru ar iechyd a llesiant - p'un ai'n gorfforol, yn feddyliol neu'n gymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys asesiad ynghylch a yw'r effeithiau hyn yn gadarnhaol neu'n negyddol, y prif grwpiau poblogaeth sy'n cael eu heffeithio, ac a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol neu 'fylchau' yn y cynlluniau, yr argymhellion neu'r polisiau wrth baratoi ar gyfer, neu mewn ymateb i, Brexit. Bydd yr HIA hefyd yn nodi meysydd ar gyfer gweithredu yn y dyfodol. Mae'r gynulleidfa arfaethedig yn amrywiol ac yn cynnwys rhanddeiliaid amlddisgyblaethol o'r sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector.

3 Asesu Effaith ar Iechyd

Gall asesiad o effeithiau posibl polisi ar iechyd a llesiant fod yn broses ddefnyddiol, llawn gwybodaeth. Gall hyn helpu i gefnogi gwneuthurwyr polisiau a rhanddeiliaid i wneud penderfyniadau cadarn, yn seiliedig ar dystiolaeth a chymryd camau priodol. Nid yw HIA yn statudol yn y DU ar hyn o bryd ond bydd yn dod yn statudol yng Nghymru fel rhan o weithredu Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017. Mae HIA yn broses systematig, hyblyg, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, sy'n cefnogi sefydliadau i asesu canlyniadau posibl eu penderfyniadau, polisiau, cynlluniau neu gynigion ar iechyd a llesiant y boblogaeth.

Mae'r HIA hwn ar oblygiadau Brexit i iechyd y cyhoedd yn seiliedig ar dystiolaeth eang – ansoddol a meintiol, o lenyddiaeth wedi ei adolygu gan gymheiriaid, llenyddiaeth lwyd a data demograffig arall, gweithdy rhanddeiliad cyfranogol a chyfweliadau gyda phum arbenigwr ar hugain. Mae'r dystiolaeth hon wedi cael ei chydgrynhoi, ei defnyddio a'i dadansoddi i nodi themâu allweddol a meysydd effaith posibl. Mae Grŵp Cynghori Strategol gyda chynrychiolwyr o sectorau a rhanddeiliaid allweddol (gweler y Cydnabyddiaeth) wedi llywio methodoleg a datblygiad HIA yr adroddiad hwn (Blwch 1). Mae disgrifiad llawn o'r fethodoleg ar gael yn yr Adroddiad Technegol ategol (Rhan 1, adran 3).

Blwch 1. Proses HIA

- 1. Sgrinio:** a yw'r cynnig neu'r cynllun yn cael effaith ar iechyd y boblogaeth?
- 2. Cwmpasu:** pa adnoddau, cyfnodau amser, cyfleoedd polisi, tystiolaeth sydd angen eu hystyried? A oes angen sefydlu Grŵp Llywio? Rolau a chyfrifoldebau unrhyw Grŵp Llywio
- 3. Arfarnu / Asesu tystiolaeth:** triongli tystiolaeth ansoddol a meintiol a gwybodaeth iechyd
- 4. Adrodd ac argymhellion:** adeiladu adroddiad HIA ac unrhyw grynodedb nad yw'n dechnegol
- 5. Adolygu ac adlewyrchu:** yn cynnwys monitro a gwerthuso – a gafodd yr HIA ac unrhyw ganfyddiadau effaith ar iechyd a llesiant neu'r broses o wneud penderfyniadau?

4 Mekanweithiau Polisi Allweddol

Mae'r HIA yn adnabod llwybrau a mecanweithiau polisi allweddol lle mae Brexit yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol yn effeithio ar benderfyniadau iechyd (cymdeithasol, economaidd a'r amgylchedd ffisegol ac ymddygiad unigol), grwpiau poblogaeth ac, felly iechyd a llesiant. Er bod rhai o'r meysydd polisi hyn wedi eu datganoli i Gymru, mae dylanwadau arwyddocaol ar iechyd yng Nghymru, er enghraifft, cyfiawnder, mewnfudo a materion tramor, wedi eu cadw i Lywodraeth y DU. Y mecanweithiau polisi allweddol y gallai Brexit gael effaith **uniongyrchol** ar iechyd drwyddynt, yw (nid ydynt mewn trefn pwysigrwydd):

- Newid safonau rheoliadol a fframweithiau cyfreithiol (wedi ei ddatganoli a heb ei ddatganoli)
- Telerau polisi masnach a chytundebau masnach y dyfodol (wedi eu datganoli a heb eu datganoli)
- Dileu rhyddid symudiad a newidiadau i bolisiau mewnfudo (heb ei ddatganoli)
- Ni fydd dinasyddion y DU bellach yn ddinasyddion yr UE (heb ei ddatganoli)
- Colli awdurdodaeth Llys Cyfiawnder Ewrop (heb ei ddatganoli)
- Llai o fynediad i systemau iechyd y cyhoedd cydlynus allweddol (wedi ei ddatganoli a heb ei ddatganoli) e.e. Canolfan Ewropeaidd Atal a Rheoli Clefydau, Asiantaeth Meddyginiaethau Ewropeaidd
- Llai o fynediad at ddata, gwybodaeth, a mecanweithiau rhannu tystiolaeth (wedi ei ddatganoli a heb ei ddatganoli)
- Llai o fynediad i gyllid yr UE
- Colli awdurdodaeth Siarter Hawliau Sylfaenol yr UE yn y DU (heb ei ddatganoli)
- Hawliau Gwladolion yr UE i fyw a gweithio yn y DU (heb ei ddatganoli)
- Gadael y farchnad sengl a / neu'r undeb tollau (heb ei ddatganoli)
- Ymraniadau rheoliadol yn cynyddu gofynion tollau wrth ffiniau (heb ei ddatganoli)

Mae'r mecanweithiau ar gyfer effeithiau **anuniongyrchol** posibl Brexit ar iechyd wedi cael eu nodi fel a ganlyn (nid ydynt mewn trefn pwysigrwydd):

- Dirywiad economaidd, chwyddiant a gostyngiad cysylltiedig mewn cyllid ar gyfer y sector cyhoeddus, isadeiledd ac asedau cymunedol allweddol
- Mwy o ansicrwydd ynghylch y dyfodol
- Cynnydd mewn troseddau casineb
- Mwy o ymgysylltiad a chyfranogiad gwleidyddol

Wrth ysgrifennu hwn, mae nifer o opsiynau'n cael eu harchwilio ym maes y cyhoedd o ran natur y cytundeb ymadael yn cynnwys "Brexit meddal", "Brexit caled" a "dim cytundeb" (Gweler yr Eirfa yn y prif adroddiad). Mae hyn, ynghyd â'r ansicrwydd sylweddol, yn golygu nad yw wedi bod yn bosibl gwerthuso pob sefyllfa benodol a gall fod polisiau pellach ar gyfer effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol sydd heb eu cyfleu yn yr HIA hwn.

5 Canfyddiad Allweddol

Mae'r adran hon yn disgrifio prif ganfyddiadau'r HIA mewn perthynas ag effaith Brexit ar iechyd a llesiant y boblogaeth. Mae hyn yn seiliedig ar ystod o dystiolaeth:

- Gwybodaeth iechyd (gweler yr Adroddiad Technegol: Rhan 2, Proffil Iechyd Cymunedol)
- Llenyddiaeth wedi ei arfarnu'n feirniadol (gweler yr Adroddiad Technegol: Rhan 1, Adran 5)
- A thystiolaeth rhanddeiliaid (gweler yr Adroddiad Technegol: Rhan 1, Adran 4)

Mae hyn wedi cael ei gydgrynhau, ei driongli, ei greu a'i ddadansoddi. Mae mwy o wybodaeth am y fethodoleg ar gael yn adroddiad y Prif Ganfyddiadau, Adran 2 a'r Adroddiad Technegol ategol: Rhan 1, Adran 3. Mae disgrifiad llawn o ganfyddiadau arfarniad y dystiolaeth ar gael yn Adran 4 o Adroddiad y Prif Ganfyddiadau a'r Adroddiad Technegol: Rhan 2.

O'r sail dystiolaeth hon, mae'r awduron wedi ffurfio nifer o ganfyddiadau allweddol (a restrir isod).

1. Yr effeithiau uniongyrchol ar y penderfynyddion iechyd
2. Y grwpiau poblogaeth a allai gael eu heffeithio
3. Yr effaith anuniongyrchol ar les meddwl
4. Y cyd-destun polisi yng Nghymru
5. Masnachu a chytundebau masnach fel penderfynydd allweddol iechyd



Terminoleg

Mae'r HIA yn defnyddio terminoleg benodol i ddisgrifio'r effaith, gan ddefnyddio'r disgrifwyr canlynol drwyddi draw:

Math o effaith		
Cadarnhaol / cyfle		Negyddol
Effeithiau sy'n cael eu hystyried i wella statws iechyd neu roi cyfle i wneud hynny		Effeithiau sy'n cael eu hystyried i leihau statws iechyd
Tebygolrwydd effaith		
Cadarnhawyd	Tystiolaeth uniongyrchol gref e.e. o ystod eang o ffynonellau bod effaith eisoes wedi digwydd neu y bydd yn digwydd	Cadarnhawyd
Tebygol	Yn fwy tebygol o ddigwydd na pheidio. Tystiolaeth uniongyrchol ond o ffynonellau cyfyngedig	Tebygol
Posibl	Gall ddigwydd neu beidio. Tebygol, ond gyda thystiolaeth gyfyngedig i'w gefnogi	Posibl
Dwysedd / difrifoldeb effaith		
Sylweddol	Arwyddocaol o ran dwysedd, ansawdd neu raddfa. Arwyddocaol neu'n ddigon pwysig i haeddu sylw, nodedig	Sylweddol
Cymedrol	Cyfartalog o ran dwysedd, ansawdd neu raddfa	Cymedrol
Isafol	Isafswm, o ran maint, ansawdd neu raddfa, dibwys	Isafol
Hyd yr effaith		
Tymor byr (S)	Effaith yn cael ei weld mewn 0 – 3 blynedd	Tymor byr (S)
Tymor Canolig (M)	Effaith yn cael ei weld mewn 3 – 10 mlynedd	Tymor Canolig (M)
Hirdymor (L)	Effaith yn cael ei weld >10 mlynedd	Hirdymor (L)

Yn yr adran hon (a thrwy gydol yr adroddiad), mae effeithiau Brexit yn cael eu disgrifio fel rhai 'negyddol' a / neu rai 'cadarnhaol / cyfle' posibl. Defnyddir '**Negyddol**' pan fydd dystiolaeth yn dangos y gallai fod effeithiau negyddol ar y penderfynyddion iechyd a llesiant, er enghraifft diogelwch a chyflenwad bwyd (Tabl 1), neu grwpiau penodol o'r boblogaeth er enghraifft dinasyddion yr UE nad ydynt o'r DU sydd yn byw yn y DU (Tabl 2). Lle mae effeithiau negyddol posibl yn cael eu nodi, gallai ymyriadau a chamau polisi gael eu sefydlu i leddfu neu atal effeithiau negyddol. Defnyddir y term '**cadarnhaol / cyfle**' i ddisgrifio effaith fuddiol bosibl Brexit ar benderfynyddion iechyd a llesiant neu grwpiau poblogaeth ac mae'n seiliedig ar y rhagosodiad y byddai ymyriadau neu gamau polisi'n cael eu cymryd i gynyddu'r effeithiau neu'r cyfleoedd cadarnhaol. I lawer o benderfynyddion iechyd a grwpiau poblogaeth, mae effeithiau cadarnhaol a negyddol wedi cael eu nodi. Er enghraifft, mae effaith negyddol sylweddol wedi cael ei gadarnhau yn y tymor byr i ganolig o ran staff gofal iechyd, sydd yn gysylltiedig â newidiadau ac ansicrwydd o ran rheolau mewnfudo, diddymu rhyddid i symud, a chydabod cymwysterau ar draws ffiniau. Nodwyd mai effaith / cyfle cadarnhaol cymedrol posibl fyddai hyfforddi mwy o wladolion y DU i weithio ym maes gofal iechyd. Bydd angen blaenoriaethu polisiâu, cynlluniau a chamau i hyfforddi a chadw mwy o staff cenedlaethol y DU i wneud hyn. Yn nodedig, bydd yr effeithiau yn amrywio yn ôl y grŵp(iau) poblogaeth penodol sy'n cael eu heffeithio neu delerau terfynol cytundeb Brexit. Mae'r wybodaeth fanwl yma ar gael yn Adran 4 o adroddiad y Prif Ganfyddiadau a Rhan 2 o'r Adroddiad Technegol.

Oherwydd rhychwant a chymhlethdod yr effeithiau posibl, nid yw'r canfyddiadau sydd wedi eu crynhoi yn y tabl isod yn rhoi lefel y manylion yn adroddiad y Prif Ganfyddiadau. Mae Tabl 1 yn cyfeirio'r darlennydd i'r adrannau perthnasol yn adroddiad y Prif Ganfyddiadau lle ceir yr arfarniad llawn o'r dystiolaeth i ddisgrifio

natur, cyfeiriad, tebygolrwydd, dwyster a hyd posibl yr effaith. Argymhellir yn gryf bod y tabl hwn yn cael ei ddarllen ar y cyd â'r adrannau perthnasol yn adroddiad y Prif Ganfyddiadau er mwyn osgoi camddehongli ac i ddeall y dadansoddiad yn llawn.

Canfyddiad Allweddol 1: Effeithiau uniongyrchol ar y penderfynyddion iechyd

Mae Tabl 1 yn crynhoi effeithiau allweddol Brexit yng Nghymru ar benderfynyddion iechyd a llesiant, yn seiliedig ar dystiolaeth bresennol a chyn bod unrhyw leddfuf'n cael ei roi ar waith.

Tabl 1: Effeithiau allweddol Brexit yng Nghymru ar y penderfynyddion iechyd

Penderfynydd iechyd a llesiant	Effaith uniongyrchol	Cadarnhaol / cyfle			Negyddol			Rhesymeg
		Tebygolrwydd	Dwysedd	Hyd	Tebygolrwydd	Dwysedd	Hyd	
Mynediad i fwyd iach, diogel a fforddiadwy	System diogelwch bwyd	Cadarnhawyd	Sylweddol	Byr	Cadarnhawyd	Sylweddol	Byr	Negyddol: mae'r system diogelwch bwyd yn y DU yn agored iawn i newid ac ansicrwydd yn ymwneud â Brexit ac mae angen datblygu gallu sylweddol mewn perthynas â deddfwriaeth, sefydliadau, polisiau a'r gweithlu mewn cyfnod byr iawn. Gweler Adran 4.2.1 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.
		Tebygol	Cymedrol	Canolig	Tebygol	Cymedrol	Canolig	
		Posibl	Isafol	Hir	Posibl	Isafol	Hir	
		Tebygol		Sylweddol		Byr-Canol		

Mynediad i Fwyd iach, diogel a fforddiadwy (parhad)	Rheoliadau diogelwch bwyd	Posibl	Cymedrol	Hir	Posibl	Cymedrol	Hir	Cadarnhaol: cyfle i gyflwyno rheoleiddio a deddfwriaeth dynnach. Negyddol: colli deddfwriaeth diogelwch bwyd yr UE ac angen disodli'r rhain yn gyflym. Gweler Adran 4.2.1 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.
Safonau bwyd	Posibl	Sylweddol	Canol-Hir	Canol-Hir	Posibl	Sylweddol	Canol-Hir	Effaith gadarnhaol neu negyddol yn bosibl, yn dibynnu ar natur polisi a chytundebau masnach yn y dyfodol. Gweler Adran 4.2.1 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.
Cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy	Posibl	Cymedrol	Hir	Hir	Posibl	Cymedrol	Hir	Cadarnhaol: cyfle i gynhyrchu bwyd mwy cynaliadwy yng Nghymru. Gweler Adran 4.2.1 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.
Cyflenwad bwyd	Posibl	Posibl	Posibl	Posibl	Posibl	Sylweddol	Byr	Negyddol: heriau i'r gweithlu yn y sector amaethyddiaeth, newidiadau i dollau a thariffau. Gweler Adran 4.2.1 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.
Cost bwyd	Tebygol	Sylweddol	Sylweddol	Byr-Canol	Tebygol	Sylweddol	Byr-Canol	Negyddol: unrhyw gynnydd mewn chwyddiant neu lai o dwf economaidd yn effeithio ar fforddiadwyedd bwyd ac incwm. Effaith gronol o ran diwygio lles a defnydd cynyddol o fanciau bwyd yng Nghymru. Gweler Adran 4.2.1 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.

Alcohol	Patrymau yfed alcohol	Posibl	Cymedrol	Byr-Canol-Hir	Posibl (cynnydd)	Cymedrol	Byr-Canol-Hir	Cadarnhaol: llai o ddefnydd yn dilyn gostyngiad mewn incwm neu gynnydd mewn pris. Negyddol: mwy o ddefnydd oherwydd straen. Gweler Adran 4.2.2 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.
	Rheoleiddio alcohol	Posibl	Cymedrol	Canol-Hir	Posibl	Cymedrol	Canol-Hir	Cadarnhaol neu negyddol o ganlyniad i fecanweithiau rheoleiddio cryfach neu wannach mewn cytundebau masnach neu newydd neu ddeddfwriaeth. Gweler Adran 4.2.2 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.
Tybaco	Defnydd o dybaco	Posibl	Cymedrol	Byr-Canol-Hir	Posibl (cynnydd)	Cymedrol	Byr-Canol-Hir	Cadarnhaol: llai o smygu o ganlyniad i ostyngiad mewn incwm neu gynnydd mewn pris. Negyddol: cynnydd mewn smygu o ganlyniad i straen. Gweler Adran 4.2.3 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.
	Rheoleiddio tybaco	Posibl	Cymedrol	Canol-Hir	Posibl	Cymedrol	Canol-Hir	Effaith gadarnhaol neu negyddol oherwydd mecanweithiau rheoleiddio cryfach neu wannach mewn deddfwriaeth neu gytundebau masnach neuwydd. Gweler Adran 4.2.3 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.
Hawliau dynol	Colli cais am Siarter Hawliau Dynol yr UE yn y DU				Posibl	Cymedrol	Canol-Hir	Negyddol: colli amddiffyniadau cymdeithasol, gweithle a hawliau dynol, nad ydynt yn cael eu cydnabod yn llawn ar hyn o bryd yng nghyfraith y DU. Gweler Adran 4.2.4 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.
	Rheoliadau e.e. ansawdd aer, ansawdd dŵr ymdrochi	Posibl	Sylweddol	Canol-Hir	Posibl	Sylweddol	Canol-Hir	Effaith gadarnhaol neu negyddol oherwydd polisi cryfach neu wannach yn y dyfodol neu o ganlyniad i gytundebau masnach. Gweler Adran 4.2.5 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.

<p>Amodau economaidd: cyflogaeth a sgiliau</p>	<p>Heriau i'r gweithlu mewn sectorau sy'n gysylltiedig ag iechyd a llesiant</p>	<p>Cadarnhawyd</p>	<p>Sylweddol</p>	<p>Byr-Canol-Hir</p>	<p>Negyddol: Mae'r sectorau sy'n arbennig o ddibynnol ar sgiliau o'r EEA yng Nghymru yn cynnwys y sector milfeddygol, y diwydiant cynhyrchu bwyd a diod, ac iechyd a gofal cymdeithasol. Mae nifer arwyddocaol o staff academaidd ym mhrifysgolion Cymru o'r UE / EEA. Mae'r newidiadau arfaethedig i fewnffurdo a rhyddid i symud sy'n gysylltiedig â Brexit yn cyflwyno heriau o ran cadw a recriwtio yn y dyfodol.</p> <p>Gweler Adran 4.2.6 yn y Prif Adroddiad am ddatdrosodiad llawn.</p>
<p>Potensial i ddenu gweithwyr medrus mewn sectorau allweddol i Gymru o fewn y DU a gwledydd nad ydynt yn yr UE</p>	<p>Posibl</p>	<p>Cymedrol</p>	<p>Hir</p>	<p>Cadarnhaol: darparu amodau gwaith a byw deniadol yng Nghymru, cyfle i ddatblygu sgiliau gweithlu'r DU.</p> <p>Gweler Adran 4.2.6 yn y Prif Adroddiad am ddatdrosodiad llawn.</p>	
<p>Diogelwch swyddi mewn sectorau sy'n gysylltiedig ag allforion / mewnforion a chyswllt â newidiadau i rwystrau tariff a rhai sydd ddim yn rhai tariff</p>	<p>Diogelwch swyddi mewn sectorau sy'n gysylltiedig ag allforion / mewnforion a chyswllt â newidiadau i rwystrau tariff a rhai sydd ddim yn rhai tariff</p>	<p>Tebygol</p>	<p>Sylweddol</p>	<p>Byr-Canol-Hir</p>	<p>Negyddol: Mae gweithgynhyrchu yn chwarae mwy o ran yn economi Cymru nag unrhyw le arall yn y DU a phrif farchnad gweithgynhyrchwyr yw'r UE. Mae unrhyw newidiadau tariff, gostyngiad mewn buddsoddiadau busnes a llai o dwf yn yr economi yn peryglu diogelwch swyddi.</p> <p>Gweler Adran 4.2.6 yn y Prif Adroddiad am ddatdrosodiad llawn.</p>

<p>Amodau economaidd: cyflogaeth a sgiliau (parhad)</p>	Sgiliau a chy-flogadwyedd	Posibl	Cymedrol	Hir	Tebygol	Cymedrol	Canol-Hir	
								<p>Cadarnhaol: mwy o gyfle i gael mynediad i hyfforddiant a chyfleoedd cyflogaeth a datblygu'r sylfaen sgiliau yng Nghymru.</p> <p>Negyddol: colli ansicrwydd yn ymwneud â disodli Cronfeydd yr UE sydd wedi cefnogi sgiliau a chyfleoedd addysgol.</p> <p>Gweler Adran 4.2.6 yn y Prif Adroddiad am ddatdrosoddiaid llawn.</p>
	Argaeledd swyddi / gwag	Posibl	Isafol	Byr-Canol-Hir				<p>Cadarnhaol: potensial am gynydd mewn swyddi gwag, fodd bynnag, gall sgiliau a ffactorau demograffig olygu na fydd yn hawdd llenwi'r holl swyddi gwag. (Efallai na fydd y swyddi sydd ar gael yn gyflogaeth o ansawdd / "gwaith da" sydd o fudd i iechyd).</p> <p>Gweler Adran 4.2.6 yn y Prif Adroddiad am ddatdrosoddiaid llawn.</p>

Amodau economaidd: Cyllid UE	<p>Buddsoddiad cymunedol, economaidd ac isadeiledd ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldebau</p>	Posibl	Cymedrol	Canol-Hir	Tebygol	Sylweddol	Canol-Hir	<p>Cadarnhaol: cyfte i ddatblygu model a lefel cyllid newydd i fodloni anghenion poblogaeth Cymru.</p> <p>Negyddol: ansicrwydd yn ymwneud â disodli Cronfeydd yr UE sydd wedi darparu buddsoddi rhanbarthol gyda'r nod o leihau anghydraddoldebau rhanbarthol.</p> <p>Gweler Adran 4.2.7 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.</p>
	<p>Polisi / cyllid amaethyddol a rheoli tir</p>	Tebygol	Sylweddol	Canol-Hir	Cadarnhawyd	Sylweddol	Byr-Canol	<p>Cadarnhaol: cyfte i luno a theilwra polisi amaethyddol yng Nghymru.</p> <p>Negyddol: heriau mawr yn y fframwaith taliadau a pholisi, sy'n effeithio ar ffermyr, perchnogion tir a chymunedau gwledig ac yn arwain at ansicrwydd sylweddol.</p> <p>Gweler Adran 4.2.7 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.</p>
Amodau gwaith	<p>Cyllid ymchwil a datblygu</p>				Cadarnhawyd	Sylweddol	Canol-Hir	<p>Negyddol: llai o fynediad at ffrydiau ariannu Ymchwil a Datblygu'r UE, a cholli cyfleoedd cydweithredu.</p> <p>Gweler Adran 4.2.7 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn ac Adran 4.2.9 am ymchwil yn ymwneud â gofal iechyd</p>
	<p>Yn cynnwys: iechyd a diogelwch, hawli- au gweithwyr a chhydrad- doldeb, oriau gwaith</p>	Posibl	Sylweddol	Canol-Hir	Posibl	Sylweddol	Canol-Hir	<p>Cadarnhaol: potensial ar gyfer polisi yn y dyfodol i drosglwyddo / cryfhau hawliau gweithwyr yng Nghymru.</p> <p>Negyddol: colli deddfwriaeth amdiffynol yr UE ar gyfer hawliau gweithwyr.</p> <p>Gallai cytundebau masnachu a pholisi yn y dyfodol gael effeithiau cadarnhaol a negyddol.</p> <p>Gweler Adran 4.2.8 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn</p>

<p>Mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol diogel ac amserol</p>	<p>Staffio gofal iechyd</p>	<p>Posibl</p>	<p>Cymedrol</p>	<p>Hir</p>	<p>Cadarnhaowyd</p>	<p>Sylweddol</p>	<p>Byr-Canol</p>	<p>Cadarnhaol: cyfle i hyfforddi mwy o wladolion y DU i weithio mewn gofal iechyd. Negyddol: recriwtio, cadw a chydabod heriau cymwysterau yn y GIG sydd yn gysylltiedig â Brexit, creu effaith gronol ar staffio gyda'r gofynion presennol ar y sector. Gweler Adran 4.2.9 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.</p>
<p>Mynediad at feddygini-aethau, dyfeisiadau meddygol a threialon clinigol</p>	<p>Posibl</p>	<p>Cymedrol</p>	<p>Hir</p>	<p>Tebygol</p>	<p>Sylweddol</p>	<p>Byr-Canol</p>	<p>Cadarnhaol: cyfle ar gyfer datblygiad yn sector fferyllol y DU, gan gynyddu cynhyrchu yn y DU, cyfle i chwilio am gydwethrediau rhyngwladol eraill. Negyddol: amharu ar gadwyni cyflenwi meddyginiathau a deunydd traul, llai o fynediad at, neu waharddiad o dreialon yr UE, newidiadau i reoliadau, ac ansicrwydd ynghylch cyfranogiad hirdymor mewn asiantaethau rheoliadol a goruchwyllo fel EMA, ECJ. Gweler Adran 4.2.9 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.</p>	
<p>Diogelu iechyd / diogeledd iechyd</p>	<p>Diogelu iechyd / diogeledd iechyd</p>	<p>Diogelu iechyd / diogeledd iechyd</p>	<p>Tebygol</p>	<p>Tebygol</p>	<p>Cymedrol</p>	<p>Byr-Canol</p>	<p>Negyddol: colli gwybodaeth (gwyliadwriaeth a monitro) ac ymateb cydlynus i fgythiadau iechyd ar draws ffiniau. Gweler Adran 4.2.9 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.</p>	
<p>Gofal iechyd o fudd i'r ddwy ochr (ar draws ffiniau)</p>	<p>Gofal iechyd o fudd i'r ddwy ochr (ar draws ffiniau)</p>	<p>Gofal iechyd o fudd i'r ddwy ochr (ar draws ffiniau)</p>	<p>Tebygol</p>	<p>Tebygol</p>	<p>Sylweddol</p>	<p>Byr-Canol</p>	<p>Negyddol: ansicrwydd ynghylch gofal iechyd o fudd i'r ddwy ochr mewn sefyllfa "dim cytundeb" neu y tu hwnt i unrhyw gyfnod pontio. Gweler Adran 4.2.9 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.</p>	

<p>Mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol diogel ac amserol (parhad)</p>	<p>Clefydau prin</p>	<p>Tebygol</p>	<p>Isafol*</p>	<p>Byr-Canol</p>	<p>Negyddol: potensial am lai o fynediad neu wahardd o rwydweithiau clefydau prin Ewrop yn cynnwys colli rhannu gwybodaeth a thystiolaeth, effaith ar fynediad cyflym i ddiagnosis a thriniaethau newydd. Gweler Adran 4.2.9 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.</p>
<p>Staff gofal iechyd</p>	<p>Tebygol</p>	<p>Sylweddol</p>	<p>Byr-Canol</p>	<p>Byr-Canol</p>	<p>Negyddol: yng Nghymru, mae nifer di-nasyddion yr UE sydd yn gweithio ym maes gofal cymdeithasol wedi cynyddu 56% er 2011, tra bod nifer y gwladolion o'r tu allan i'r UE wedi gostwng. Mae newidiadau arfaethedig i fewnfudo a rhyddid i symud sydd yn gysylltiedig â Brexit yn cyflwyno heriau o ran recriwtio yn y dyfodol a bydd yn cael effaith gronol ar allu gweithlu presennol y sector a heriau demograffig. Gweler Adran 4.2.9 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.</p>

*Mae'r effaith hon yn isafol ar lefel poblogaeth, ond byddai'n sylweddol i unigolion â chlefydau prin.



O ran y penderfyniadau iechyd a llesiant, mae'r dadansoddiad o effaith yn dangos bod bron pob effaith / **cyfle cadarnhaol** posibl wedi eu dosbarthu fel rhai 'posibl', hynny yw gallant ddigwydd o bosibl ond mae tystiolaeth gyfyngedig i gefnogi hyn. Nid oes effaith gadarnhaol 'bosibl' (yn fwy tebygol o ddigwydd na pheidio) wedi cael ei nodi ar gyfer polisi / cyllid amaethyddiaeth a rheoli tir, ar sail cyfleoedd newydd i lunio a theilwra polisi amaethyddiaeth yng Nghymru. Mae dadansoddiadau yn dangos y disgwylir i'r rhan fwyaf o effeithiau / cyfleoedd cadarnhaol posibl i gael gradd gymedrol o effaith dros dymor canolig i hirdymor (effaith a welir dros fwy na 3 blynedd) neu yn yr hirdymor (dros 10 mlynedd). Mae enghreifftiau o feysydd lle nad oes unrhyw effeithiau cadarnhaol wedi cael eu nodi yn cynnwys cyflenwad bwyd, cost bwyd, diogelwch swyddi, cyllid ymchwil a datblygu ar gyfer technolegau iechyd a thriniaethau, a gofal iechyd o fudd i'r ddwy ochr (ar draws ffiniau).

Mae'r rhan fwyaf o effeithiau **negyddol** posibl a nodir wedi eu dosbarthu naill ai ag effaith gymedrol neu sylweddol ac amcangyfrifir bod gan dros hanner naill ai effaith debygol neu wedi ei chadarnhau. Nodwyd bod saith maes ag effaith sylweddol debygol: systemau diogelwch bwyd; cost bwyd; diogelwch swyddi mewn sectorau sy'n gysylltiedig ag allforion / mewnforion a chyswllt â newidiadau o ran rhwystrau tariff a rhai nad ydynt yn rhai tariff; cyllid yr UE ar gyfer cymuned, isadeiledd economaidd ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldebau; mynediad at feddyginiaethau, dyfeisiadau meddygol a threialon clinigol; gofal iechyd o fudd i'r ddwy ochr (ar draws ffiniau); a staff gofal cymdeithasol. Yn nodedig, mae pedwar maes wedi eu nodi fel effaith sylweddol wedi ei gadarnhau: colli gweithwyr mewn sectorau sy'n gysylltiedig ag iechyd a llesiant; polisi / cyllid amaethyddol a rheoli tir yr UE; cyllid ymchwil a datblygu'r UE ar gyfer technolegau a thriniaethau'n ymwneud ag iechyd; a staff gofal iechyd.

Cydnabyddir, wrth i broses Brexit barhau ac esblygu, y gallai'r effeithiau a nodir yn y tabl newid neu gall fod effeithiau eraill sydd heb eu nodi eto a allai, yn y pen draw, fod yr un mor arwyddocaol i iechyd a llesiant.

Oherwydd rhychwant a chymhlethdod yr effeithiau posibl, nid yw'r canfyddiadau sydd wedi eu crynhoi yn y tabl isod yn rhoi lefel y manylion yn adroddiad y Prif Ganfyddiadau. Mae Tabl 2 yn cyfeirio'r darlennydd i'r adrannau perthnasol yn adroddiad y Prif Ganfyddiadau lle ceir yr arfarniad llawn o'r dystiolaeth i ddisgrifio

natur, cyfeiriad, tebygolrwydd, dwyster a hyd posibl yr effaith. Argymhellir yn gryf bod y tabl hwn yn cael ei ddarllen ar y cyd â'r adrannau perthnasol yn adroddiad y Prif Ganfyddiadau er mwyn osgoi camdehongli ac i ddeall y dadansoddiad yn llawn.

Canfyddiad Allweddol 2: Grwpiau poblogaeth allweddol a allai gael eu heffeithio

Gall effeithiau Brexit naill ai effeithio: ar y boblogaeth gyfan, (er enghraifft, trwy gyflenwad bwyd, rheoliadau amgylcheddol); adrannau mawr o'r boblogaeth, (er enghraifft trwy amodau gwaith); neu grwpiau agored i niwed allweddol o'r boblogaeth, (er enghraifft plant, pobl sydd angen gofal cymdeithasol). Mae Tabl 2 yn rhoi dadansoddiad o'r effaith ar grwpiau o'r boblogaeth yng Nghymru y disgwylir y byddant yn cael eu heffeithio'n benodol gan Brexit.

Tabl 2: Crynodeb o'r prif grwpiau poblogaeth yng Nghymru y rhagwelir y byddant yn cael eu heffeithio gan Brexit

Grŵp Poblogaeth	Effaith uniongyrchol	Cadarnhaol / cyfle			Negyddol			Rhesymeg
		Tebygolrwydd	Dwysedd	Hyd	Tebygolrwydd	Dwysedd	Hyd	
Rhyw a grwpiau'n ymwneud â rhyw	Menywod (mewn perthynas ag amodau gwaith, hawliau a chyflogaeth)	Cadarnhawyd	Sylweddol	Byr	Cadarnhawyd	Sylweddol	Byr	Negyddol: dyfodol ansicr amddiffyniad cydraddoldeb yn y gwaith, cyswllt â diweithdra, cynnydd posibl mewn rôl ofalu anffurfiol. Gweler Adran 4.4.5 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.
		Tebygol	Cymedrol	Canolig	Tebygol	Cymedrol	Canolig	
		Posibl	Isafol	Hir	Posibl	Isafol	Hir	
	Cyflogaeth dynion ag addysg isel a chanolig (os bydd telerau masnach gyda'r UE yn newid rheolau Sefydliad Masnachu'r Byd (WTO))				Posibl	Cymedrol	Byr-canol-hir	Negyddol: Mae diwydiannau fyddai'n agored iawn i newidiadau i dariffau masnachu gyda'r UE o dan reolau WTO yn gyflogwyr pwysig dynion ag addysg isel yng Nghymru, yn cyflogi tua 21% o ddynion ag addysg isel. Gweler Adran 4.4.5 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.
					Posibl	Cymedrol	Byr-canol-hir	

Grwpiau'n Gysylltiedig ag Oed	Plant	Posibl	Isafol*	Canol-Hir	Posibl	Cymedrol	Byr-Canol-Hir	Cadarnhaol: cyfle i wella hawliau plant trwy ddeddfwriaeth Cymru. Negyddol: gostyngiad posibl mewn hawliau ar gyfer plant a rhieni sy'n gweithio, llai o fynediad i systemau diogelu Ewropeaidd, tlodi plant o ganlyniad i unrhyw gyfngiad yn yr economi, effaith ar iechyd a lles meddwl oherwydd ansicrwydd am y dyfodol ar ôl yr UE. Gweler Adran 4.4.1 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.
	Plant wedi eu geni i deuluoedd â rhiant o wlad yn yr UE nad yw yn y DU				Tebygol	Sylweddol	Byr-Canol-Hir	Negyddol: ansicrwydd yn ymwneud â rheolau mewnfudo yn y dyfodol a statws setlo yn effeithio ar ddiogeledd, addysg a threfniadau byw teuluoedd. Gweler Adran 4.4.6 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.
	Oedolion ifanc	Posibl	Isafol*	Byr-Canol-Hir	Tebygol	Sylweddol	Byr-Canol-Hir	Cadarnhaol: cyfle i ddatblygu sylfaen sgiliau yng Nghymru a chynyddu argaeledd swyddi. Fodd bynnag, mae cyfleoedd wedi eu cyfyngu gan sgiliau a ffactorau demograffig. Negyddol: llai o fynediad ac ansicrwydd ynghylch disodli cronfeydd yr UE i gefnogi sgiliau a chyfleoedd addysg, llai o fynediad i gyflogaeth ac astudio'r UE, colli hawliau o bosibl, effaith ar gyfleoedd cyflogaeth oherwydd llai o dwf economaidd. Gweler Adran 4.4.1 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.

<p>Grwpiau'n ymwneud ag incwm</p>	<p>Pobl sy'n byw ar incwm isel, yn cynnwys pobl sy'n byw mewn tldi bwyd a thanwydd</p>	<p>Tebygol</p>	<p>Sylweddol</p>	<p>Byr-Canol-Hir</p>	<p>Negyddol: llai o gadernid o ran effeithiau economaidd fel cynnydd mewn prisiau, gostyngiad mewn cyflogau gwirioneddol, llai o gyflogaeth, a llai o fynediad ac ansicrwydd ynghylch disodli cyllid rhanbarthol yr UE. Effaith gronnol o ran diwygio lles a thlodi bwyd.</p> <p>Gweler Adran 4.4.2 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.</p>
					<p>Cadarnhaol: mwy o argaeledd swyddi, ond mae'r cyfleoedd wedi eu cyfyngu gan sgiliau a ffactorau demograffig.</p> <p>Negyddol: perygl o gollu swyddi oherwydd unrhyw ostyngiad mewn twf economaidd.</p> <p>Gweler Adran 4.4.2 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.</p>
<p>Grwpiau sy'n dioddef gwahaniaethu neu anfantais gymdeithasol</p>	<p>Pobl mewn perygl o ddiweithdra / sydd yn ddi-waith</p>	<p>Tebygol</p>	<p>Sylweddol</p>	<p>Byr-Canol-Hir</p>	<p>Posibl</p>
					<p>Isafol*</p>
<p>Grwpiau sy'n dioddef gwahaniaethu neu anfantais gymdeithasol</p>	<p>Grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig.</p>	<p>Tebygol</p>	<p>Cymedrol</p>	<p>Byr-Canol</p>	<p>Negyddol: cynnydd mewn troseddau casineb, llai o oddefgarwch, hawliau cydraddoldeb yn erydu, effaith ar gyflogaeth mewn diwydiannau gwasanaeth os yw'n "Brexit Caled".</p> <p>Gweler Adran 4.4.4 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.</p>

Grwpiau daearyddol	Pobbl sydd yn byw mewn ardalodd â dangosyddion economaidd ac iechyd gwael / ardaloedd o Gymru sydd wedi bod yn fuddiolwyr sylweddol o gyllid yr UE	Posibl	Cymedrol	Canol-Hir	Tebygol	Sylweddol	Canol-Hir	Cadarnhaol: cyfle ar gyfer model a lefel newydd o gyllid i fodloni anghenion poblogaeth Cymru. Negyddol: ansicrwydd yn ymwneud â chyllid rhanbarthol yn y dyfodol ar gyfer buddsoddiadau cymunedol, datblygu economaidd ac isadeiledd yng Nghymru. Gweler Adran 4.4.3 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.
	Ffermwyr / cymunedau gwledig	Tebygol	Sylweddol	Hir	Tebygol	Sylweddol	Byr-Canol	Cadarnhaol: rhyddhau o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin, gallu i gael mynediad at farchnadoedd newydd, a chyfleoedd i lunio polisi amaethyddol yng Nghymru. Negyddol: colli ffrydiau incwm o'r UE, mwy o ansicrwydd yn ymwneud â chael cyllid yn ei le. Gweler Adran 4.4.3 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.
	Trefi porthladd	Effaith bosibl ond dim digon o effaith	Effaith bosibl ond dim digon o effaith	Effaith bosibl ond dim digon o effaith	Effaith bosibl ond dim digon o effaith	Effaith bosibl ond dim digon o effaith	Byr-Canol	Gweler Adran 4.4.3 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.
	Trefi arfordirol e.e. gweithlu twristiaeth ac ansawdd dŵr ymdrochi	Effaith bosibl ond dim digon o effaith	Effaith bosibl ond dim digon o effaith	Effaith bosibl ond dim digon o effaith	Effaith bosibl ond dim digon o effaith	Effaith bosibl ond dim digon o effaith	Byr-Canol	Gweler Adran 4.4.3 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.
	Pobl yn byw mewn ardaloedd lle gallai cyflogwyr mawr adael	Posibl	Posibl	Posibl	Posibl	Sylweddol	Byr-Canol-Hir	Negyddol: mae dadansoddiadau academaidd a thystiolaeth arall gan rai cwmnïau mawr yn awgrymu effeithiau posibl ar fuddsoddiad a gweithrediadau yn y dyfodol yng Nghymru. Gweler Adran 4.4.3 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.

Grwpiau eraill agored i niwed		Tebygol	Sylweddol	Byr-Canol-Hir	Negyddol: Mae poblogaeth Cymru yn agored iawn i newidiadau o ran gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, er enghraifft o ganlyniad i fwy o anghenion iechyd fel cyfran uwch o drigolion â salwch hirdymor. Mae gan heriau recriwtio a chyflenwi yn y GIG a'r sector gofal cymdeithasol, ynghyd â chanlyniadau iechyd a briodolir i unrhyw anawsterau economaidd a diweithdra, y potensial i gynyddu'r pwysau ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Gweler 4.4.6 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.
Pobl sydd angen gofal iechyd a gofal cymdeithasol		Tebygol	Sylweddol	Byr-Canol-Hir	Negyddol: Mae poblogaeth Cymru yn agored iawn i newidiadau o ran gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, er enghraifft o ganlyniad i fwy o anghenion iechyd fel cyfran uwch o drigolion â salwch hirdymor. Mae gan heriau recriwtio a chyflenwi yn y GIG a'r sector gofal cymdeithasol, ynghyd â chanlyniadau iechyd a briodolir i unrhyw anawsterau economaidd a diweithdra, y potensial i gynyddu'r pwysau ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Gweler 4.4.6 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.
Perchnogion busnesau bach / cyflogwyr sydd yn mewnforio neu'n allforio nwyddau a gwasanaethau		Tebygol	Cymedrol	Byr-Canol	Negyddol: ansicrwydd unrhyw gytundebau masnach a chytundebau rheoleiddio yn y dyfodol, mwy o waith papur a gwiriadau o bosibl, materion gweithlu fel colli staff yr UE. Gweler Adran 4.4.6 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.
Dinasyddion a theutuoedd yr UE sydd yn byw yng Nghymru nad ydynt o'r DU		Tebygol	Sylweddol	Byr-Canol-Hir	Negyddol: ansicrwydd yn ymwneud â rheolau mewnfudo a statws setlo sy'n effeithio ar ddiogelwch ffordd o fyw a threfniadau byw. Gweler Adran 4.4.6 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.

*Mae hyn yn ymwneud â'r cyfle i gryfhau hawliau plant ymhellach yng Nghymru, er bod hyn eisoes yn ffocws cryf ym mholisi Cymru trwy fabwysiadu Hawliau'r Plentyn y CU. Felly, mae'r cwmpas i wella yn isafol.

Ar gyfer wyth grŵp poblogaeth, ceir effeithiau **cadarnhaol** posibl i Brexit. Mae'r rhan fwyaf o'r effeithiau hyn wedi eu dosbarthu fel rhai 'posibl' (gallant ddigwydd o bosibl ond mae tystiolaeth gyfyngedig i gefnogi hyn), a rhagwelir y byddant naill ai'n cael effaith isafol neu gymedrol. Bydd ffermwyr a'r rheiny sy'n byw mewn cymunedau gwledig mwy na thebyg yn gweld effaith gadarnhaol / cyfle sylweddol yn yr hirdymor, yn ymwneud â rhyddhau'r DU o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin a'r gallu i gael mynediad i farchnadoedd newydd. Fodd bynnag, bydd y grŵp hwn mwy na thebyg yn gweld effaith negyddol sylweddol yn y tymor byr i'r tymor canolig, oherwydd colli ffrydiau incwm yr UE a'r ansicrwydd presennol ynghylch cyllid yn ei le.



Mae effeithiau **negyddol** posibl wedi cael eu nodi ar gyfer yr holl grwpiau poblogaeth sy'n cael eu hystyried. Mae'r rhan fwyaf o'r effeithiau wedi eu nodi fel rhai 'tebygol', ac i'r mwyafrif, ystyrir bod yr effaith negyddol yn sylweddol. Y grwpiau sy'n cael eu hystyried fel y rhai mwyaf tebygol o brofi effaith negyddol sylweddol yw: plant sydd wedi eu geni i deuluoedd â rhiant o wlad yn yr UE nad yw yn y DU a'u teuluoedd; oedolion ifanc; pobl sy'n byw ar incwm isel; pobl sydd mewn perygl o ddiweithdra; y rheiny sydd yn ddi-waith; pobl sy'n byw mewn ardaloedd â dangosyddion economaidd ac iechyd gwael neu ardaloedd sydd wedi bod yn fuddiolwyr cyllid yr UE; ffermwyr a chymunedau gwledig; a phobl sydd angen gofal iechyd a gofal cymdeithasol.



Cydnabyddir, wrth i broses Brexit barhau ac esblygu, y gallai'r effeithiau a nodir yn y tabl newid neu gall fod effeithiau eraill sydd heb eu nodi eto a allai, yn y pen draw, fod yr un mor arwyddocaol i iechyd a llesiant.

Canfyddiad Allweddol 3: Effeithiau anuniongyrchol ar les meddwl

Mae rhanddeiliaid a gymerodd ran yn yr HIA wedi nodi nifer o fecanweithiau posibl lle gallai iechyd a lles meddwl y boblogaeth gael ei effeithio gan Brexit (gweler adroddiad y Prif Ganfyddiadau, adran 4.3). Mae'r rhain yn cynnwys mwy o ansicrwydd; syniad gwahanol o reolaeth; teulu a chydberthynas cymunedol; dirywiad economaidd a diweithdra; lefelau cadernid cymunedol yn dilyn newid mawr; mwy o symud cyfalaf cymdeithasol a gwleidyddol; ac effeithiau ar gynhwysiant a gwahaniaethu.

Mae'r mecanweithiau dylanwad hyn ar les meddwl wedi eu cefnogi gan adolygiad o'r llenyddiaeth. Fodd bynnag, nid yw'r HIA wedi nodi unrhyw ddadansoddiad o ddata iechyd nac ymchwil ansodol a wnaed hyd yn hyn ar effaith Brexit ar iechyd a llesiant poblogaeth. Mae hwn yn faes lle dylai gwylidwriaeth ac ymchwil roi dealltwriaeth well o'r materion, yn cynnwys effeithiau a allai fod wedi dechrau ers y bleidlais i adael. Mae tystiolaeth yn ymwneud ag argyfyngau economaidd blaenorol yn awgrymu y gall ymyriadau polisi fod yn effeithiol yn lleihau neu leddfu effeithiau dirywiad economaidd ar iechyd a lles meddwl.

Canfyddiad allweddol 4: Y cyd-destun polisi yng Nghymru

Nododd rhanddeiliaid yn y gweithdy HIA ac mewn cyfweiliadau bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf WFG) yn rhoi fframwaith deddfwriaethol pwerus sydd yn hybu cydweithredu, integreiddio, meddwl yn yr hirdymor, ymagweddau ataliol a chyfranogiad y cyhoedd (gweler adroddiad y Prif Ganfyddiadau, adran 5). Nododd y cyfranogwyr y dylai unrhyw bwerau datganoledig newydd, fframweithiau polisi neu ysgogwyr, sydd yn dod i'r amlwg o Brexit neu ar ôl ymadael, ystyried egwyddor datblygu cynaliadwy y Ddeddf a'i (bum) ffordd o weithio. Maent hefyd wedi nodi bod Deddf WFG yn rym cadarnhaol i wrthbwyso unrhyw effeithiau negyddol posibl yn sgil Brexit a gall helpu i lunio dyfodol hirdymor Cymru, yn unol â (saith) nod llesiant Cymru. Mae'r rhanddeiliaid wedi argymhell bod angen canolbwyntio ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn hytrach na rheoli canlyniadau uniongyrchol Brexit yn unig.

Nododd gweithdy HIA a chyfranogwyr y cyfweiliadau bod Brexit yn darparu agoriad i adlewyrchu ar bolisi presennol a nodi cyfleoedd newydd ar gyfer polisi gwell a mwy o ddatganoli, a allai fod yn fwy priodol i fodloni anghenion Cymru i'r dyfodol. Nododd cyfranogwyr y gweithdy HIA gostau cyfleoedd sefydliadau ar draws pob sector gan ganolbwyntio ar baratoi ar gyfer gadael yr UE fel canlyniad negyddol sylweddol nad oedd wedi ei fwriadu gan Brexit, ac y gallai hyn arwain at lai o ffocws ar lawer o flaenoriaethau polisi eraill, fel newid hinsawdd.

Canfyddiad Allweddol 5: Masnachu a chytundebau masnach fel penderfynydd allweddol iechyd

Mae adolygiad cyflym o dystiolaeth ar effeithiau posibl Brexit ar yr economi, a'r berthynas rhwng masnach, yr economi a chanlyniadau iechyd wedi cael ei gynnal fel rhan o'r HIA. Mae trafodaeth fanylach ar y canfyddiadau ar gael yn Adran 3 o adroddiad y Prif Ganfyddiadau.

Mae effaith unrhyw ostyngiad posibl mewn twf economaidd, chwyddiant cynyddol a gostyngiadau o ganlyniad mewn gwariant cyhoeddus oherwydd Brexit yn un set yn unig o fecanweithiau lle gallai effeithiau iechyd ddigwydd. Mae'r dystiolaeth yn dangos yn glir bod dirywiad economaidd yn cael effaith sylweddol ar benderfynyddion iechyd fel incwm, cyflogaeth a safonau byw, gyda thystiolaeth gref yn cysylltu'r rhain ag effaith ar iechyd meddwl. Fodd bynnag, mae rhagfynegi canlyniadau iechyd yn gymhleth ac yn anodd. Mae tystiolaeth o argyfyngau economaidd eraill yn awgrymu y gall ymyriadau polisi fel rhaglenni gweithredol y farchnad lafur, cymorth i deuluoedd a gofal iechyd meddwl sylfaenol helpu i leihau neu leddfu effeithiau ar iechyd a lles meddwl.

Ceir tystiolaeth gref bod darpariaethau cytundebau masnach rhyngwladol wedi dylanwadu'n sylweddol ar benderfynyddion iechyd a llesiant. Mae peryglon a chyfleoedd i iechyd y boblogaeth mewn cytundebau masnach yn y dyfodol ar ôl Brexit a bydd angen diogelwch parhaus ac eiriolaeth ar y rhain gan arbenigwyr iechyd y cyhoedd i sicrhau bod iechyd a llesiant yn cael eu diogelu a'u hybu. Mae hon yn dasg fawr a chymhleth, o ystyried y meintiau cynyddol posibl o gytundebau masnach dwyochrog a allai ddigwydd ar ôl Brexit. Byddai goblygiadau hefyd o ran datblygu'r gweithlu i iechyd y cyhoedd, oherwydd yn rhyngwladol, nid oes llawer o ffocws wedi bod o safbwynt ymarfer, addysg ac ymchwil iechyd y cyhoedd ar ymgysylltu â pholisi masnach byd-eang.

6.1 Effeithiau Cadarnhaol Posibl

Mae'r HIA yn nodi nifer o effeithiau cadarnhaol neu gyfleoedd posibl ar gyfer iechyd a llesiant yn y tymor canolig i hirdymor yn dilyn y DU yn gadael yr UE. Fel y soniwyd yn gynharach, mae'r rhain yn seiliedig ar y rhagosodiad bod camau'n cael eu cymryd i gynyddu buddion neu unrhyw gyfleoedd a gyflwynir gan Brexit ac maent yn hynod o ddibynol ar ymrwymadau polisi a / neu ymyriadau yn y tymor byr a chanolig gan Lywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r rhain yn cynnwys (nid ydynt mewn trefn pwysigrwydd):

- Gweithio gyda Llywodraeth y DU i ailstrwythuro modelau cyllid yn y dyfodol i Gymru
- Cynyddu cyfleoedd, sgiliau a hyfforddiant ar gyfer y boblogaeth, yn cynnwys staff gofal iechyd yng Nghymru
- Cynnal a chynyddu cydberthynas gydweithredol gyda phartneriaid mewn gwledydd Ewropeaidd ac archwilio a datblygu perthnasoedd a chydweithrediadau nad ydynt yn rhai'r UE mewn perthynas ag academia ac ymchwil a datblygu
- Adolygu polisi amaethyddiaeth i ganolbwyntio ar gynaliadwyedd, gyda'r potensial i gynyddu cynhyrchu a chyflenwi bwyd cynaliadwy yn lleol, ac i leihau ôl troed carbon Cymru
- Gwella amddiffyniadau rheoliadol cymdeithasol, gweithle, cydraddoldeb, bwyd a'r amgylchedd allweddol
- Cryfhau mesurau rheoliadol, deddfwriaethol a chyllidol tybaco ac alcohol yn y gyfraith, yn rheoliadol neu mewn cytundebau masnach yn y dyfodol



6.2 Effeithiau Negyddol Posibl

Mae'r HIA yn nodi effeithiau negyddol posibl y DU yn ymadael â'r UE, llawer ohonynt yn y tymor byr i'r tymor canolig ac ar draws yr ystod o benderfynyddion allweddol iechyd ac yn cynnwys (nid ydynt mewn trefn pwysigrwydd):

Gwasanaethau gofal iechyd

- Posibilrwydd o fwy o bwysau ar y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) a lefelau staffio gofal cymdeithasol o ganlyniad i faterion recriwtio a chadw
- Llai neu oedi o ran mynediad i feddyginiaethau newydd, treialon clinigol a dyfeisiadau yn sgil y DU yn gadael cyrff rheoliadol a chydlynu allweddol
- Colli mynediad i Rwydweithiau Cyfeirio Ewropeaidd a mynediad cyflym i ofal clinigol arbenigol ar gyfer clefydau prin

Mynediad at fwyd iach, diogel a fforddiadwy

- Amharu ar ddiogelwch bwyd a systemau safonau, llafur a chadwyni cyflenwi
- Gallai rheoliadau safonau bwyd gael eu heffeithio'n niweidiol trwy gytundebau masnach neu newidiadau polisi yn y dyfodol
- Gallai unrhyw gynnydd mewn chwyddiant o ganlyniad i Brexit gynyddu cost bwyd, fydd yn effeithio'n benodol ar bobl ar incwm isel. Mae angen ystyried hyn yng nghyd-destun y twf diweddar yn y defnydd o fanciau bwyd ar draws Cymru

Iechyd y cyhoedd / diogelwch iechyd

- Llai o allu i ddiogelu iechyd oherwydd nad yw'r DU bellach yn cymryd rhan mewn systemau cydlynu iechyd y cyhoedd a mecanweithiau rhannu tystiolaeth allweddol yr UE

Newidiadau yn ymwneud â deddfwriaeth, rheoliadau a safonau'r UE

- Gallai safonau amddiffyniadau cymdeithasol, y gweithle, cydraddoldeb, cyflogaeth ac amgylcheddol gael eu heffeithio'n niweidiol trwy newidiadau i gytundebau masnach neu bolisi yn y dyfodol
- Colli awdurdodaeth Siarter Hawliau Sylfaenol yr UE ar gyfer dinasyddion y DU

Cyflogaeth

- Posibilrwydd o gynnydd mewn diweithdra mewn sectorau â chyswllt uchel â marchnadoedd mewnforio ac allforio oherwydd newidiadau mewn tariffau, rhwystrau nad ydynt yn ymwneud â thariffau a rheoliadau tollau

Mynediad at gyllid yr UE

- Colli neu lai o fynediad at gyllid yr UE ar gyfer isadeiledd, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a thlodi a datblygu economaidd
- Ansicrwydd model taliadau amaethyddol yn y dyfodol

Ymchwil a Datblygu

- Colli neu lai o fynediad at gyllid yr UE ar gyfer ymchwil a datblygu yn y dyfodol
- Colli neu lai o fynediad at gydweithrediadau a rhwydweithiau ymchwil yr UE

Iechyd a lles meddwl

- Effaith ar iechyd a lles meddwl trwy ansicrwydd am y dyfodol, perthnasoedd teuluol a chymunedol o dan straen, dirywiad economaidd, lefelau cadernid cymunedol i newid sylweddol, a llai o gydlyniant a goddefgarwch cymunedol

6.3 Hyd yr Effaith

Mae'r HIA hefyd wedi asesu effaith Brexit yn y tymor byr i'r tymor canolig a'r tymor canolig i'r hirdymor ar y boblogaeth (nid ydynt mewn trefn pwysigrwydd):

Tymor byr i'r tymor canolig

- Gallai statws economaidd y DU a Chymru ar ôl Brexit gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar draws penderfynyddion ehangach iechyd a llesiant ac mae'n dibynnu ar natur unrhyw gytundebau masnach a pholisi economaidd Llywodraeth y DU
- Bydd amhariad sylweddol os nad yw'r cynlluniau wrth gefn a'r camau lleddfu yn weithredol pan fydd eu hangen, er enghraifft mewn meysydd fel mynediad at wasanaethau a meddyginiaethau, diogelu iechyd, cyflenwad bwyd, staff gofal cymdeithasol a materion eraill y gweithlu
- Gallai'r ansicrwydd am natur ymadawiad y DU o'r UE gael effaith negyddol ar les meddwl y boblogaeth. Gall cydlyniant a chadernid cymunedol gael ei effeithio hefyd
- Mae nifer o effeithiau niweidiol posibl i iechyd a llesiant yn gysylltiedig â'r agenda reoliadol a gadael asiantaethau cydlynu allweddol, yn cynnwys amharu ar gadwyni cyflenwi ar gyfer bwyd a meddyginiaethau, systemau diogelwch bwyd a phenderfynyddion iechyd amgylcheddol
- Bydd angen cymorth a monitro ychwanegol ar boblogaethau agored i niwed a nodir yn yr HIA





Tymor canolig i hirdymor

- Gallai statws economaidd y DU a Chymru ar ôl Brexit gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar draws penderfynyddion ehangach iechyd a llesiant ac mae'n dibynnu ar natur unrhyw gytundebau masnach a pholisi economaidd Llywodraeth y DU
- Galluogi cyfleoedd cyflogaeth, hyfforddiant a sgiliau trwy Lywodraeth Cymru a gallai polisi gynyddu cyfleoedd cadarnhaol Brexit
- Gallai Cymru achub ar y cyfle i ddatblygu ei pholisi adnoddau naturiol a datblygu cynaliadwy a chreu amodau gwaith mwy ffafriol a allai ddenu gweithwyr allweddol
- Gallai Cymru barhau i gryfhau'r berthynas gyda chenhedloedd datganoledig eraill y DU a chydag asiantaethau unigol. Bydd cynnal cydberthynas a chydweithrediadau gyda phartneriaid yr UE lle bynnag y bo'n bosibl yn dal yn bwysig ond mae cyfleoedd hefyd i ddatblygu partneriaethau newydd gyda Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) a sefydliadau iechyd rhyngwladol eraill
- Gallai amddiffyniadau cymdeithasol, iechyd y cyhoedd ac amgylcheddol allweddol wella neu leihau e.e. ansawdd aer, amodau gwaith, labelu ar gyfer cynnyrch alcohol neu dybaco
- Gallai deddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau, yn dibynnu ar safleoedd polisi terfynol, wella neu leihau
- Bydd angen i bobl sydd yn byw mewn ardaloedd â dangosyddion economaidd ac iechyd gwael / ardaloedd o Gymru sydd wedi cael budd sylweddol o gyllid yr UE, gael eu cefnogi a bydd angen cymryd camau i ddatblygu modelau cyllid newydd
- Bydd angen datblygu camau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn buddsoddiad cymunedol, economaidd ac isadeiledd er mwyn mynd i'r afael ag effaith hirdymor Brexit

Er mwyn cynyddu unrhyw gyfleoedd a nodwyd, bydd angen cymryd camau polisi yn y tymor uniongyrchol i'r tymor byr.

7 Gweithredu yn y Dyfodol






Mae argymhellion manwl ar y materion a nodir y tu hwnt i gwmpas yr adroddiad hwn. Mae'r tablau isod yn cynrychioli rhestr o feysydd ar gyfer gweithredu yn y dyfodol y mae angen i'r llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus eraill sicrhau eu bod yn cael eu monitro a'u trin. Mae angen ymateb cydlynus a chydweithredol, aml-asantiaeth ar bob un o'r meysydd a nodwyd ar gyfer gweithredu, er mwyn sicrhau bod ymyriadau effeithiol ac amserol yn cael eu rhoi ar waith, er mwyn cynyddu cyfleoedd a lleihau unrhyw effeithiau negyddol ar iechyd a llesiant. Yn nodedig, gallai camau eisoes fod ar y gweill mewn rhai meysydd.






Gellir categorio'r camau fel a ganlyn¹:

Angen gweithredu	Mae angen gweithredu i atal neu leddfu effeithiau negyddol posibl neu gynyddu cyfleoedd ar gyfer iechyd
Angen ymgysylltu gweithredol	Mae angen gweithredu, er enghraifft, i ddylanwadu ar ddatblygiad polisi yng Nghymru, y DU ac Ewrop a chytundebau masnach yn y dyfodol
Blaenoriaeth ymchwil	Mae angen ymchwil yn y 12-18 mis nesaf i lenwi bylchau tystiolaeth arwyddocaol neu leihau'r ansicrwydd yn y lefel bresennol o ddealltwriaeth, er mwyn asesu'r angen am weithredu ychwanegol
Briff gwyllo	Dylid parhau i adolygu'r dystiolaeth yn y meysydd hyn, gyda monitro a gwylidwriaeth hirdymor o lefelau effaith a gweithgaredd addasu er mwyn gallu cymryd camau pellach os oes angen

¹ Mae'r HIA hwn wedi defnyddio fersiwn diwygiedig o'r graddfeydd brys o Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU (Pwyllgor Newid Hinsawdd, 2017) er mwyn caniatáu i feysydd ar gyfer gweithredu gael eu nodi a'u blaenoriaethu ar draws y penderfyniadau iechyd a'r grwpiau poblogaeth a nodir yn yr HIA.

7.1 Categoriâu gweithredu ar gyfer y penderfyniadau iechyd

Penderfyniadau Iechyd	Categori	Rhesymeg
<p>Mynediad i iechyd a gofal cymdeithasol</p> 	Angen gweithredu	<p>Effeithio ar y boblogaeth gyfan, ond yn arbennig grwpiau agored i niwed.</p> <p>Yn y tymor byr i'r hirdymor mae un effaith (staffio) wedi ei gadarnhau a nododd pum effaith negyddol posibl feddyginiaethau, dyfeisiadau meddygol a threialon clinigol, diogelu iechyd clefydau prin, gofal iechyd a gofal cymdeithasol o fudd i'r ddwy ochr (ar draws ffiniau).</p> <p>Gweler Adran 4.2.9 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.</p>
<p>Ffordd o fyw: Bwyd: diogelwch, safonau a mynediad</p> 	Angen gweithredu	<p>Effeithio ar y boblogaeth gyfan.</p> <p>Mae graddfa'r newid a'r cynlluniau wrth gefn sydd eu hangen yn arwyddocaol ac mewn cyfnod byr o amser. Efallai na fydd y DU yn parhau'n aelod o Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop na chael mynediad i systemau diogelwch bwyd presennol. O ran cyflenwad bwyd, mae colli llafur a newidiadau i dollau yn faterion allweddol yn y tymor byr. Gall chwyddiant effeithio ar fforddiadwyedd bwyd ac effaith ar iechyd ac anghydraddoldebau iechyd.</p> <p>Gweler Adran 4.2.1 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.</p>
<p>Ffordd o fyw: Alcohol a Thybaco</p> 	Angen ymgysylltu gweithredol	<p>Effeithio ar adrannau mawr o'r boblogaeth sy'n oedolion.</p> <p>Mae angen ymgysylltu gweithredol i gryfhau mecanweithiau cyfreithiol a rheoliadol allweddol mewn cytundebau masnach neu ddeddfwriaeth newydd e.e labelu.</p> <p>Gweler Adrannau 4.2.2 a 4.2.3 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.</p>
<p>Amgylchedd Byw: Rheoliadau amgylcheddol</p> 	Angen ymgysylltu gweithredol	<p>Effeithio ar y boblogaeth gyfan.</p> <p>Mae angen ymgysylltu gweithredol i wella safonau a rheoliadau amgylcheddol mewn cytundebau masnach a deddfwriaeth newydd e.e Ansawdd Aer.</p> <p>Gweler yr Adran 4.2.8 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.</p>
<p>Amgylchedd byw: Amodau gwaith</p> 	Angen ymgysylltu gweithredol	<p>Effeithio ar gyfran fawr o'r boblogaeth, y blynyddoedd cynnar a bywyd teuluol.</p> <p>Mae angen ymgysylltu gweithredol i wella amodau gwaith yn dilyn cytundebau masnach a deddfwriaeth newydd.</p> <p>Gweler Adran 4.2.8 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.</p>

Penderfynydd Iechyd	Categori	Rhesymeg
<p>Amodau economaidd: Cyflogaeth a sgiliau</p> 	<p>Angen ymgysylltu gweithredol</p>	<p>Effeithio ar y boblogaeth oedolion sy'n gweithio, plant a phobl ifanc, a chenedlaethau'r dyfodol. Gallai effeithio ar anghydraddoldebau iechyd. Mae angen ymgysylltu gweithredol i gefnogi newid polisi a buddsoddi i alluogi effeithiau cadarnhaol. Gweler Adran 4.2.6 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.</p>
<p>Amodau economaidd: cyllid yr UE</p> 	<p>Angen ymgysylltu gweithredol</p>	<p>Effeithio ar y boblogaeth gyfan. Wedi ei effeithio'n uniongyrchol gan Brexit, gan arwain at botensial arwyddocaol ar gyfer llai o fynediad i ffrydiau cyllid allweddol (strwythurol, ymchwil a datblygu ac amaethyddol) ar gyfer Cymru. Mae angen ymgysylltu gweithredol i ddylanwadu ar fodolau cyllid a rheolau ar gyfer mynediad yn y dyfodol. Gweler Adran 4.2.7 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.</p>
<p>Hawliau dynol</p> 	<p>Angen ymgysylltu gweithredol</p>	<p>Effeithio ar y boblogaeth gyfan. Mae angen ymgysylltu gweithredol i ddiogelu a gwella amddiffyniadau cymdeithasol, gwaith a chydraddoldeb allweddol mewn cytundebau masnach a deddfwriaeth newydd. Gweler Adran 4.2.4 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.</p>
<p>Lles meddwl</p> 	<p>Blaenoriaeth ymchwil</p>	<p>Effeithio ar y boblogaeth gyfan. Ceir rhywfaint o dystiolaeth y gallai Brexit gael effaith yn seiliedig ar y profiad o argyfyngau blaenorol (e.e. cynnydd mewn hunanladdiad) oherwydd ansicrwydd neu derfysg gwleidyddol a chymdeithasol, ond mae angen mwy o fewnwelediad a thystiolaeth. Gallai hyn fod yn ymchwil ansoddol a / neu gyfraddau monitro iselder a hunanladdiad. Gweler Adran 4.3.1 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.</p>
<p>Cadernid a chydlyniant cymunedol</p> 	<p>Blaenoriaeth ymchwil</p>	<p>Effeithio ar y boblogaeth gyfan. Mae dystiolaeth debygol y gallai Brexit gael effaith ond mae angen mwy o fewnwelediad a thystiolaeth e.e. diogelwch cymunedol a chadernid. Gweler Adran 4.3.1 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.</p>

7.2 Categoriâu gweithredu ar gyfer grwpiau poblogaeth

Grŵp poblogaeth	Categori	Rhesymeg
Plant sydd wedi eu geni i deuluoedd â rhiant o Wlad yn yr UE nad yw yn y DU	Angen gweithredu	Mae 4% (tua 20,000) o holl drigolion Cymru sydd yn blant yn byw ar aelwyd lle mae o leiaf un person yn ddinesydd yr UE. Mae tua 7,000 yn 0 i 4 oed. Mae'r grŵp hwn o bosibl yn profi ansicrwydd ac amhariad i'w bywyd teuluol a'u haddysg, yn dibynnu ar bolisi mewnfudo yn y dyfodol. Gweler Adran 4.4.6 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.
Teuluoedd yn cael eu heffeithio gan reoliadau mewnfudo ansicr / newydd (e.e. dinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru)	Angen gweithredu	Gallai ansicrwydd o ran rheolau mewnfudo yn y dyfodol effeithio ar ddiogelwch ffordd o fyw a threfniadau byw. Yn arbennig, ar gyfer y rheiny sydd wedi byw a gweithio yn y DU am lai na 5 mlynedd. Gweler Adran 4.4.6 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.
Pobl sydd angen gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol	Angen gweithredu	Mae gan 23% o oedolion (696,000 o bobl) yng Nghymru salwch hirdymor. Mae'r grŵp hwn yn agored i unrhyw bwysau cynyddol ar iechyd a gofal cymdeithasol yn sgil Brexit. Gweler Adran 4.4.6 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.
Pobl sydd yn byw ar incwm isel	Angen ymgysylltu gweithredol	Mae'r grŵp hwn eisoes yn profi canlyniadau iechyd gwael. Gallai Brexit gael effaith gronol gyda diwygiadau lles. Mae pobl ar incwm isel yn cael eu heffeithio llawer gan chwyddiant ar nwyddau hanfodol e.e. bwyd a dillad. Gweler Adran 4.4.2 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.
Pobl sydd yn ddi-waith / mewn perygl o ddiweithdra	Angen ymgysylltu gweithredol	Mae'r grŵp hwn eisoes yn profi canlyniadau iechyd gwael. Gall dirywiad economaidd a thelerau masnach yn y dyfodol effeithio ar swyddi. Mae angen ymyriadau polisi i ysgogi cyfleoedd cadarnhaol. Gweler Adran 4.4.2 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.

Grŵp poblogaeth	Categori	Rhesymeg
Pobl sydd yn byw mewn ardaloedd â dangosyddion economaidd ac iechyd gwael / ardaloedd o Gymru sydd wedi cael budd sylweddol o gyllid yr UE	Angen ymgysylltu gweithredol	Mae'r grŵp hwn eisoes yn profi canlyniadau iechyd gwael. Mae'r ardaloedd hyn yn debygol o brofi colled sylweddol o ran cyllid cymunedol, isadeiledd a datblygu economaidd yn y dyfodol. Mae angen ymyrraeth polisi i ysgogi cyfleoedd cadarnhaol e.e. ar unrhyw fodolau cyllid newydd. Gweler Adran 4.4.3 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.
Pobl sy'n byw mewn ardaloedd lle gallai cyflogwyr mawr symud i ffwrdd	Angen ymgysylltu gweithredol	Gallai dirywiad economaidd a thelerau masnach y dyfodol effeithio ar swyddi. Mae fframwaith presennol ar Ddigwyddiadau o Ddiweithdra ar Raddfa Fawr yn darparu ymagwedd iechyd y cyhoedd tuag at baratoi ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau o'r fath. Gweler Adran 4.4.3 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.
Perchnogion busnesau bach	Angen ymgysylltu gweithredol	Mae 89.1% o fentrau yng Nghymru yn fentrau micro. Mae effaith negyddol posibl ar y grŵp hwn yn sgil ansicrwydd ynghylch unrhyw gytundebau masnach a chytundebau rheoleiddio yn y dyfodol, posibilrwydd o fwy o waith papur a gwiriadau, costau neu faterion yn ymwneud â'r gweithlu. Gweler Adran 4.4.6 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.
Plant	Angen ymgysylltu gweithredol Blaenoriaeth ymchwil	Mae ystod eang o effeithiau hirdymor posibl o ganlyniad i lai o gyllid cyhoeddus, llai o hawliau, a newidiadau mewn amodau gwaith, byw ac economaidd i deuluoedd e.e. potensial ar gyfer cynnydd o ran camddefnyddio alcohol a allai arwain at gynnydd mewn Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Gweler Adran 4.4.1 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.
Ffermwyr / cymunedau gwledig	Angen ymgysylltu gweithredol Blaenoriaeth ymchwil	Perthnasol iawn i boblogaeth Cymru. Mae potensial ar gyfer newid a phontio ar raddfa fawr, yn ogystal ag ansicrwydd yn y tymor byr i ganolig. Mae angen ymyriadau polisi i ysgogi cyfleoedd cadarnhaol. Gweler Adran 4.4.3 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.

Grŵp poblogaeth	Categori	Rhesymeg
Oedolion ifanc	Angen ymgysylltu gweithredol Blaenoriaeth ymchwil	Mae pryderon eisoes am iechyd meddwl pobl ifanc. Mae angen ymyriadau polisi i ysgogi cyfleoedd cadarnhaol mewn meysydd fel sgiliau. Mae effeithiau negyddol posibl wedi cael eu nodi ond mae angen mwy o fewnwelediad a thystiolaeth. Gweler Adran 4.4.1 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.
Ardaloedd porthladd yng Nghymru	Blaenoriaeth ymchwil	Mae effaith yn bosibl, ond mae natur yr effaith yn ansicr ar hyn o bryd. Gweler Adran 4.4.3 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.
Grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig	Blaenoriaeth ymchwil	Mae tystiolaeth yn awgrymu effaith negyddol yn ymwneud â throseddau casineb, ond mae angen mwy o ymchwil i ddeall graddfa a natur yr effaith. Gweler Adran 4.4.4 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.
Menywod / Dynion	Briff gwyllo	Mae natur yr effaith yn dibynnu ar bolisi a thelerau masnach yn y dyfodol. Gweler Adran 4.4.5 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.
Ardaloedd arfordirol	Briff gwyllo	Mae effaith yn bosibl ond mae natur yr effaith yn ansicr ar hyn o bryd. Gweler Adran 4.4.3 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.

8 Casgliad

Mae'r HIA hwn yn defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael (yn cynnwys gwybodaeth rhanddeiliaid arbenigol, llenyddiaeth wedi ei arfarnu'n feirniadol a gwybodaeth iechyd) i nodi goblygiadau **posibl** Brexit i iechyd a llesiant y boblogaeth yng Nghymru – yn negyddol ac yn gadarnhaol. Am nad yw Brexit wedi digwydd eto wrth ysgrifennu hwn, nid yw wedi bod yn bosibl cael tystiolaeth o effaith wirioneddol. Fodd bynnag, mae'r HIA hwn yn cynnig canfyddiadau cynnar pwysig i alluogi cynllunio a gwneud penderfyniadau effeithiol.

Bydd llawer o **effeithiau uniongyrchol** Brexit yn effeithio ar y boblogaeth gyfan, er enghraifft trwy gyflenwad bwyd a safonau; adrannau mawr o'r boblogaeth, er enghraifft trwy effeithio ar amodau gwaith; neu grwpiau penodol fel pobl mewn angen a gwasanaethau gofal cymdeithasol.

O ran y **penderfynyddion iechyd a llesiant**, mae'r dadansoddiad o effaith yn dangos bod bron pob effaith / cyfle cadarnhaol posibl yn 'bosibl, hynny yw gallant ddigwydd ond mae tystiolaeth gyfyngedig i gefnogi hyn. Ystyrir bod y rhan fwyaf o'r effeithiau negyddol posibl a nodir naill ai'n cael effaith gymedrol neu sylweddol, ac amcangyfrifir bod y rhan fwyaf naill ai'n cael effaith debygol neu wedi ei gadarnhau. Yn nodedig, y pedwar maes y nodwyd (gweler Tabl 1) eu bod yn cael effaith negyddol sylweddol wedi ei gadarnhau yng Nghymru yw:

- Colli gweithwyr mewn sectorau sydd yn gysylltiedig ag iechyd a llesiant
- Polisi / cyllid rheolaeth amaethyddol a thir yr UE
- Cyllid ymchwil a datblygu'r UE ar gyfer technolegau a thriniaethau yn ymwneud ag iechyd
- Recriwtio a chadw staff gofal iechyd

Mewn perthynas â **grwpiau poblogaeth**, mae effeithiau cadarnhaol posibl wedi cael eu nodi ar gyfer pump o'r 16 o grwpiau a ystyriwyd, er bod y rhain yn 'bosibl' yn bennaf. Ar gyfer yr holl grwpiau poblogaeth a ystyriwyd, mae effeithiau negyddol wedi cael eu nodi (Gweler Tabl 2). Mae'r rhan fwyaf o'r effeithiau negyddol wedi eu nodi fel rhai 'tebygol', ac ar gyfer y rhan fwyaf, ystyrir bod yr effeithiau yn sylweddol.

Mae'r HIA wedi nodi nifer o fecanweithiau lle gallai Brexit effeithio ar **iechyd a lles meddwl** poblogaeth; mae angen gwyliadwriaeth ac ymchwil ar frys i ddeall y materion hyn yn well. Canfyddiad allweddol arall yn yr adroddiad yw bod unrhyw **ostyngiad mewn twf economaidd**, cynnydd mewn chwyddiant a gostyngiadau o ganlyniad yng ngwariant cyhoeddus oherwydd Brexit yn fecanweithiau pwysig lle gall effeithiau iechyd ddigwydd, gyda thelerau **cytundebau masnach rhyngwladol** yn effeithio ar benderfynyddion iechyd a llesiant.

Amlygodd tystiolaeth rhanddeiliaid y cyd-destun polisi unigryw yng Nghymru, wedi ei ysgogi gan ddatganoli a ffocws ar **ddatblygu cynaliadwy**. Gallai'r rhain ddarparu nifer o gyfleoedd ar gyfer pobl Cymru, fel cynhyrchu bwyd a rheoli tir yn fwy cynaliadwy. Ceir mwy o fanylion am y canfyddiadau hyn yn y Prif Ganfyddiadau yn Adran 3 (Masnach, yr Economi ac Iechyd), Adran 4 (Arfarnu'r Dystiolaeth) ac Adran 5 (Goblygiadau Polisi Ehangach ar gyfer Cymru).

Mae angen uniongyrchol i sefydliadau ar draws pob sector ymgysylltu nawr a sicrhau bod **cydweithredu a chydlynu effeithiol** yn cynyddu cyfleoedd ym mhroses Brexit i wella iechyd a lles y boblogaeth. Mae'n rhaid i'r defnydd o ysgogwyr polisi, yn arbennig yn ymwneud â'r economi a masnach; cyflogaeth, sgiliau a hyfforddiant; a rheoli adnoddau ac amaethyddiaeth, fod yn ymwybodol o'u heffeithiau ar lesiant ac osgoi gwanhau rheoliadau diogelu iechyd sydd eisoes wedi eu sefydlu (Gweler adroddiad y Prif Ganfyddiadau, Adran 4).

Mae lleihau niwed a chynyddu cyfleoedd ar gyfer Cymru yn gofyn am ymateb cydlynus llawn i Brexit ar draws pob sector. Mae cydlyniant o'r fath yn gofyn am sefydliad neu asiantaeth arwain ym mhob maes (er enghraifft iechyd, amaethyddiaeth, cyflogaeth) ac arweinyddiaeth gyffredinol i sicrhau cynllunio integredig ac amserol. Mae'r HIA hwn wedi darparu rhywfaint o'r wybodaeth sydd ei hangen i ategu swyddogaeth arwain o'r fath ond mae hefyd wedi nodi y bydd diffyg gwybodaeth integredig oni bai bod mecanweithiau parhaus yn cael eu sefydlu. Fel y gwelwyd yn Adrannau 5 a 6.3, mae effaith Brexit a'r angen am ymateb integredig yn debygol o ymestyn ymhell ar ôl y dyddiad ymadael (29 Mawrth 2019) ac felly dylai cynlluniau o'r fath fod â golwg llawer hwy (3-10+ mlynedd). Yn y tymor byr i ganolig, gallai'r wybodaeth a geir yn yr HIA hwn gael ei diweddarau fel mater o drefn i helpu i ategu cydweithredu, cydlynu a monitro o'r fath.

Awgrymodd rhanddeiliaid a gyfrannodd at yr HIA **fuddsoddiad** cynnar **mewn asedau** a gweithgareddau **cymunedol allweddol**, i ddatblygu cydlyniant cymunedol a chadernid a lleddfu effeithiau negyddol o ganlyniad i ansicrwydd presennol neu effeithiau yn y dyfodol ar gyflogaeth, yr economi ac iechyd a lles meddwl o ganlyniad i hynny (gweler Adran 4.3.3 o'r Prif Ganfyddiadau). Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (Deddf WFG) yn darparu fframwaith ar gyfer cyrff cyhoeddus Cymru, er enghraifft yn gofyn iddynt weithio tuag at Gymru o gymunedau cydlynus gyda diwylliant bywiog a lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu. Mewn fframwaith o'r fath, mae'r HIA wedi nodi ystod o elfennau lleddfu posibl o ran materion a allai fel arall effeithio ar iechyd a lles meddwl trwy ansicrwydd, anawsterau economaidd neu effeithiau ar gyflogaeth yn deillio o Brexit. Dylai gweithgareddau o'r fath ddatblygu asedau Cymru yn cynnwys:

- Celfyddydau a diwylliant Cymru
- Ein hasedau amaethyddol a'n hamgylchedd naturiol i sicrhau eu bod yn cael eu datblygu'n gynaliadwy i gefnogi iechyd, llesiant a ffyniant ein trigolion
- Ein perthnasoedd rhyngwladol eraill (nad ydynt yn yr UE) er mwyn i Gymru allu datblygu mwy o gydweithredu rhyngwladol ac arweinyddiaeth trwy, er enghraifft, cyrff y Cenedloedd Unedig fel Sefydliad Iechyd y Byd (WHO)
- Defnyddio'r uchod i wella ein henw da rhyngwladol a gwneud Cymru yn lle deniadol i fuddsoddi a byw



Mae cynnydd yn cael ei wneud yng Nghymru i sicrhau parhad iechyd a busnesau ac i fynd i'r afael â materion uniongyrchol fel diogelu iechyd a bygythiadau i ddiogelwch iechyd. Mae angen meddwl bellach y tu hwnt i'r sefyllfa uniongyrchol, er mwyn sicrhau bod meddwl yn strategol yn yr hirdymor yn gosod polisi a buddsoddiad yn ôl y cyfleoedd a'r asedau a amlygir uchod. Mae rhan o hyn yn gofyn am feithrin, cydlynu a chryfhau partneriaethau ar draws y pedair cenedl yn y DU, ar draws Ewrop ac yn fyd-eang i wella cydweithrediadau a datblygu rhai newydd. Er y gall cydweithrediadau uniongyrchol ganolbwyntio ar bolisi, ymchwil a datblygiadau sydd yn lleddfu canlyniadau niweidiol Brexit, dylent hefyd ddarparu man cychwyn ar gyfer gwaith rh yngasiantaethol a rhyngwladol cydlynus ar gyfer y dyfodol. Mae angen monitro ac adlewyrchu effeithiau iechyd a llesiant Brexit (p'un ai'n gadarnhaol neu'n negyddol) a'r peryglon a'r cyfleoedd sy'n dod i'r amlwg, yn barhaus mewn trefniadau a gwaith cydweithredol. Mae'r ymagwedd gynaliadwy sydd eisoes wedi ei sefydlu gan Ddeddf WFG yn rhoi templed defnyddiol i sicrhau bod partneriaethau yn rhai hirdymor ac yn canolbwyntio ar ddiogelu a gwella iechyd a llesiant ar gyfer y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol.

Gweithredoedd a Argymhellir

Mae'r HIA hwn wedi nodi nifer o effeithiau arwyddocaol ar iechyd a llesiant y boblogaeth yng Nghymru a allai godi o ganlyniad i Brexit. Er bod argymhellion manwl y tu hwnt i gwmpas yr adroddiad hwn, mae meysydd ar gyfer gweithredu yn y dyfodol wedi cael eu hamlygu, sydd yn gofyn i'r llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus a sectorau eraill yng Nghymru ddatblygu ymateb aml-asiantaeth gydweithredol a chydlynus i gynyddu unrhyw gyfleoedd a buddion a lleihau unrhyw effeithiau negyddol. Mae gweithredoedd penodol sydd yn deillio o'r adroddiad hwn yn cynnwys:

1. Dylai gwneuthurwyr polisiâu a gwasanaethau cyhoeddus ystyried yr ystod o effeithiau posibl Brexit a nodir yn yr adroddiad hwn (Adrannau 5 a 6) a'r meysydd ar gyfer gweithredu yn y dyfodol (Adran 7) a sicrhau bod camau cydlynus wedi eu sefydlu i fynd i'r afael â bob un. Dylai'r adroddiad hefyd gael ei ystyried gan strwythurau aml-asiantaeth sydd wedi cael eu sefydlu i baratoi ar gyfer ac ymateb i Brexit, er mwyn darparu cydlynus ar draws gweithgareddau a sicrhau bod y rhyng-ddibyniaeth rhyngddynt wedi cael ei nodi a'i drin.
2. Mae nifer o grwpiau poblogaeth, er enghraifft Dinasyddion yr UE nad ydynt o'r DU, cymunedau difreintiedig a gwledig, wedi cael eu nodi i fod yn arbennig o agored i niwed o broses Brexit (gweler Adran 5). Dylid blaenoriaethu polisiâu a gweithredoedd er mwyn mynd i'r afael ag effeithiau ar grwpiau poblogaeth o'r fath lle gallai Brexit fod fwyaf niweidiol. Dylai pob gweithred (nid yn unig y rheiny mewn iechyd) ddangos yn amlwg sut maent wedi ystyried diogelu a gwella iechyd a llesiant holl drigolion Cymru, ond yn arbennig y rhai mwyaf agored i niwed.
3. Mae angen i arweinyddiaeth ar draws cyfanrwydd materion Brexit barhau i ddarparu cyfeiriad cyffredinol i ymateb Cymru, a sicrwydd beirniadol bod cynlluniau'n gweithio'n briodol ar draws asiantaethau yn ogystal ag ar draws graddfeydd amser (tymor byr, canolig a hirdymor).
4. Dylai cyrff cyhoeddus sefydlu fframwaith sefydliadol ar y cyd, fel 'Fframwaith Risg ac Effaith' i helpu i ddatblygu, cydlynus, gweithredu a monitro eu hymateb i Brexit. Dylai'r penderfynyddion iechyd cymdeithasol, er enghraifft addysg a chyflogaeth, a meysydd o berygl uniongyrchol i iechyd (yn cynnwys iechyd meddwl) a gofal iechyd er enghraifft a staffio, fod yn rhan o'r fframwaith hwn. Dylai'r fframwaith gael ei lywio gan systemau gwybodaeth sydd yn monitro effeithiau Brexit yng Nghymru fel mater o drefn yn gyffredinol ond yn arbennig ar y grwpiau y rhagwelir y cânt eu heffeithio fwyaf (gweler Argymhelliad 5 ac Adran 5).

5. Dylid cyfuno data a gwybodaeth ar draws asiantaethau yn ymwneud ag effeithiau posibl Brexit (gweler Adrannau 5 a 6) a'u defnyddio mewn dangosfwrdd sy'n cael ei ddiweddarau'n rheolaidd i lywio polisi ar y cyd a gwneud penderfyniadau strategol. Dylai hyn gynnwys data ôl-weithredol o adeg cyn y refferendwm, er mwyn sefydlu llinell sylfaen cyn i ansicrwydd Brexit ddechrau ac i archwilio effeithiau'n ymwneud â Brexit a allai eisoes fod wedi digwydd, er enghraifft ar iechyd meddwl, recriwtio, buddsoddi yng Nghymru.
6. Dylai sefydliadau a phartneriaethau ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i fframio eu hymateb i Brexit. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod yr effeithiau ar ac anghenion plant a phobl ifanc fydd yn cael eu heffeithio fwyaf yn y dyfodol (yn cynnwys cenedlaethau'r dyfodol) yn cael eu hystyried (gweler Adran 5, Canfyddiadau Allweddol 4). Mae angen i'r gweithredu ganolbwyntio ar effeithiau negyddol a diogelu llesiant, gan gydnabod cysylltiadau â phenderfynyddion cymdeithasol iechyd.
7. Mae angen mwy o ymchwil ar effaith Brexit ar iechyd a lles meddwl, cadernid a chydlyniant cymunedol, plant a phobl ifanc, ffermwyr a chymunedau gwledig, ardaloedd porthladd a grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig (Adran 7). Dylai hyn ategu data yn y dangosfwrdd a gellid ei ddefnyddio ar y cyd i fodelu effeithiau yn y dyfodol ar gyfer Cymru.
8. Mae diffyg profiad a sgiliau yng ngweithlu iechyd y cyhoedd ar hyn o bryd i ddylanwadu ar a chyfrannu at gytundebau masnach (gweler Adran 5, Canfyddiad Allweddol 5). Dylai'r system iechyd y cyhoedd ystyried sut i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a gallu i sicrhau bod iechyd a llesiant yn cael ei ystyried yn flaenllaw ym mhrosesau o'r fath. Gall fod gan wasanaethau cyhoeddus eraill ddiffygion tebyg y mae angen mynd i'r afael â nhw.
9. Dylai Iechyd Cyhoeddus Cymru, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill, fonitro a gwerthuso defnyddio'r HIA hwn. Dylai Iechyd Cyhoeddus Cymru (gyda mewnbwn gan y Grŵp Cyngori Strategol) adolygu, monitro a rhannu canfyddiadau allweddol yr HIA hwn fel mater o drefn, er mwyn llywio ymateb polisi a gwneuthurwyr penderfyniadau, gwasanaethau cyhoeddus a grwpiau aml-asiantaeth yng Nghymru.



“Mae rhai agweddau ar ddeddfwriaeth nad ydynt yn effeithio ar iechyd y cyhoedd, p’un ai trwy gyfle a natur cyflogaeth, fframweithiau rheoliadol ar gyfer gwasanaethau a chynnyrch, neu ddiogelu’r amgylchedd naturiol. Bydd goblygiadau sylweddol ac eang yn sgil y DU yn gadael yr UE ar gyfer cyfreithiau a rheoliadau cenedlaethol, perthnasoedd masnach, symudiad pobl a dosbarthiad adnoddau. Bydd y broses yn gofyn am lawer iawn o gytundebau rhwng seneddwyr ym mhedair gwlad y DU, yn ogystal â’r rheiny yn Ewrop.

Mae wedi cael ei ddisgrifio fel ‘yr hyn allai fod yr her fwyaf yn ystod heddwch y mae’r DU wedi ei hwynebu erioed’. Ond mae hefyd yn cynrychioli cyfle i weithio tuag at weledigaeth fwy uchelgeisiol ar gyfer polisi, deddfwriaeth a rheoliadau yn y dyfodol. Gallai hybu ymagwedd iechyd ym mhob polisi tuag at drefniadau Brexit wneud diogelu a hybu iechyd y cyhoedd yn ganolog”.

Y Sefydliad Iechyd (2018) Policies for Healthy Lives: A look Beyond Brexit (tud.3)

Nodyn ar Gyfyngiadau'r HIA

Er mwyn rhoi tystiolaeth amserol i Iechyd Cyhoeddus Cymru a rhanddeiliaid, cynhaliwyd yr HIA hwn mewn graddfa amser fer (Gorffennaf 2018 i Rhagfyr 2018). Mae hyn wedi cyfyngu ar ddyfnder y dystiolaeth a gasglwyd a'r dadansoddiad a wnaed. Mae graddfa a chymhlethdod effeithiau Brexit yn golygu bod yr HIA wedi canolbwyntio ar effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol sylweddol; cydnabyddir bod effeithiau eraill sydd, hyd yn hyn, heb eu nodi. **Mae'n bwysig datgan bod y rhan fwyaf o'r effeithiau a nodir yn yr adroddiad hwn yn rhai posibl yn hytrach nag yn rhai gwirioneddol.**


Mae'r DU yn gadael yr UE yn sefyllfa ddiglyffelyb ac mae ansicrwydd parhaus wedi bod parthed sefyllfa drafod Llywodraeth y DU. Felly, ceir tystiolaeth gyfyngedig ar union effeithiau sefyllfa Brexit ac o ganlyniad, nid yw'r HIA hwn wedi gwerthuso sefyllfaoedd Brexit penodol, ond yn canolbwyntio ar yr effeithiau posibl i Gymru o ganlyniad i'r DU yn gadael fframwaith presennol yr UE.

Mae tystiolaeth o effaith Brexit ar ystod eang o feysydd polisi naill ai'n anhysbys neu'n ddadleuol iawn ac mae llawer o honiadau wedi cael eu gwneud o fewn y dystiolaeth lefel uchel a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn. Lle y bo'n bosibl, mae'r rhain wedi cael eu cynnwys i ddarparu'r rhesymeg ynghylch pam y mae effeithiau penodol wedi cael eu hamlygu.

Gall priodoli fod yn heriol ym maes iechyd y cyhoedd ac mae effaith ar ganlyniadau iechyd yn anodd ei gyfleu o ddigwyddiad cymhleth fel Brexit gyda'i fyrdd o ffactorau a chyd-destunau. Gall unrhyw newidiadau hefyd fod oherwydd newidiadau neu ffactorau eraill mewn poblogaeth, er enghraifft, polisiau cyni.

Mae'r HIA hwn yn canolbwyntio ar gyd-destun gwleidyddol, cymdeithasol ac economaidd penodol i Gymru, sydd yn cyfyngu ar ei natur drosglwyddadwy, er y gellir trosglwyddo elfennau i wledydd datganoledig eraill. Fodd bynnag, y gobaith yw y bydd canfyddiadau'r HIA yn ddefnyddiol i asiantaethau a gwneuthurwyr penderfyniadau yng Nghymru a thu hwnt.





Iechyd Cyhoeddus Cymru
Rhif 2 Capital Quarter
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ
Ffôn: 02920 227744

www.publichealthwales.org

Ebost: generalenquiries@wales.nhs.uk

 [@IechydCyhoeddus](https://twitter.com/IechydCyhoeddus)

 [/IechydCyhoeddusCymru/](https://www.facebook.com/IechydCyhoeddusCymru/)